Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
# **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16**

Cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Gorchmynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin, 7 Gorffennaf 2016.

HC 520

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2016**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, 102 Petty France, Llundain, SW1H 9AJ.

Print ISBN 9781474135054
Y We ISBN 9781474135061
ID 24061644 07/16

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


## Adroddiad am Berfformiad

### Golwg gyffredinol

| | |
|---|---|
| Datganiad y Prif Weithredwr | 2 |
| Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol | 4 |

### Dadansoddi'r Perfformiad

| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r perfformiad | 8 |
| Golwg ar ein blwyddyn | 8 |
| Ein perfformiad o'i gymharu â'n tri Amcan Strategol | 9 |
| Adroddiad am gynaliadwyedd | 15 |
| Sylwadau am reolaeth ariannol | 19 |
| Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol | 21 |

## Adroddiad am Atebolrwydd

| | |
|---|---|
| Adroddiad am lywodraethu corfforaethol | 23 |
| Datganiad am gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 25 |
| Datganiad am lywodraethu | 26 |
| Adroddiad am daliadau a staff | 36 |
| Datgeliadau am atebolrwydd seneddol | 49 |
| Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin | 50 |

## Adroddiadau Ariannol

| | |
|---|---|
| Datganiadau Ariannol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 | 52 |

# Adroddiad am berfformiad

# Datganiad y Prif Weithredwr







Dyma drydydd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (yr Asiantaeth). Rwyf wrth fy modd â'r cynnydd rydym wedi'i wneud dros y tair blynedd diwethaf. Rydym wedi parhau i drawsnewid cymorth cyfreithiol gan symud rhagor o'n gwaith ar lein. Ni fyddem wedi gallu gwneud hyn heb y cydweithio rhwng ein staff, ein darparwyr a'r system cyfiawnder ehangach.

Rwyf bob tro'n gwerthfawrogi ein staff sydd wedi chwarae rhan bwysig wrth symud yr Asiantaeth yn ei blaen gan gynnal perfformiad cryf ar yr un pryd. Ein staff yw ein caffaeliad mwyaf. Bydd ein perthynas â'n staff yn cryfhau o flwyddyn i flwyddyn wrth inni wneud yr Asiantaeth yn lle gwell i weithio. Fel rhan o'n hymdrechion i drawsnewid ein gweithle, rydym wedi lledaenu technoleg i alluogi ein staff i weithio'n fwy hyblyg a choleddu dulliau clyfrach o weithio.

Sefydliad sydd â'i olygon tua'r dyfodol yw'r Asiantaeth ac mae wedi coleddu'r newidiadau a'r cyfleoedd y gall dulliau newydd o weithio a phrosesau gwell eu cynnig inni i gyd.

Symudais ymlaen o'm swydd fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth ar 31 Mawrth 2016 ac rwy'n ymadael gan wybod ei bod mewn dwylo da o dan stiwardiaeth gadarn Shaun McNally.

**Matthew Coats**
Cyn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
30 Mehefin 2016

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Asiantaeth. Rwy'n falch o arwain sefydliad mor gadarnhaol a blaengar ei hagwedd sy'n rhoi ei phobl wrth galon popeth y mae'n ei wneud.

Mae wedi bod yn flwyddyn bwysig arall i'r Asiantaeth. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar y tri Amcan Strategol sydd yn ein cynllun busnes ac wedi camu ymlaen i ddiwygio cymorth cyfreithiol, symud ein trafodion gyda'n darparwyr a'n cleientiaid ar lein a datblygu ein pobl a'n gwaith. Mae'r Asiantaeth wedi ymateb i heriau drwy gydol y flwyddyn ac mae hyn wedi ein galluogi i ddatblygu, gan fanteisio hefyd ar yr un pryd ar dechnolegau newydd a dulliau clyfrach o weithio.

**Amcan Strategol 1: Gwella gwaith achos i ostwng costau, cryfhau trefniadau rheoli a rhoi gwell gwasanaeth i gwsmeriaid**

Mae newidiadau sylweddol wedi bod yn y ffordd mae'r Asiantaeth yn gweithio fel sefydliad, gan gynnwys cwblhau trosglwyddo dros 500,000 o geisiadau cymorth cyfreithiol troseddol o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM) i'r Asiantaeth. Ochr yn ochr â hyn, rhoddwyd eFfurflen newydd ar waith i alluogi darparwyr i gyflwyno'u ceisiadau ar lein, ac mae'r nifer sydd wedi manteisio ar hyn ar draws y maes cymorth cyfreithiol troseddol wedi bod yn well na'r disgwyl. O ran cymorth cyfreithiol sifil, lledaenwyd ein System Rheoli Cleientiaid a Chostau a'i gwneud yn orfodol ar gyfer cyflwyno ceisiadau a biliau cymorth cyfreithiol sifil. Ar draws y meysydd cymorth cyfreithiol sifil a throseddol, mae'r newidiadau hyn wedi cynnwys

gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i sicrhau ein bod i gyd yn gallu elwa ar fanteision gweithio'n ddigidol.

Wrth inni roi'r newidiadau hyn ar waith, rydym wedi cynnal ein perfformiad yn ein gwaith craidd sef prosesu ceisiadau a thalu biliau. Mae ein gwasanaeth i gwsmeriaid wedi gwella drwy ddefnyddio systemau digidol a systemau'r cwmwl gan helpu i gwtogi amserau aros ar y ffôn.

**Amcan Strategol 2: Gwella gallu'r sefydliad i ymateb i'r heriau sydd o'n blaen, gan gynnwys datblygu ein pobl ac ymgysylltu â hwy**

Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod yr Asiantaeth yn lle gwell i weithio, a bod diwylliant yn bwrw gwreiddiau sy'n rhoi gwerth ar amrywiaeth ac sy'n gadarnhaol, yn gynhwysol a'i golygon tuag allan. Rwy'n arbennig o falch ein bod ymhlith y tri sefydliad uchaf yn y Gwasanaeth Sifil o ran Cynhwysiant a Thriniaeth Deg. Mae ein staff wedi chwarae rhan bwysig yn hyn a nifer ohonynt wedi gwirfoddoli i fod yn hyrwyddwyr amrywiaeth ac ymgysylltu. Yn ogystal â hyn, mae lledaenu technoleg newydd i'n staff wedi trawsnewid y gweithle, gan alluogi pobl i weithio'n fwy hyblyg a gwella'r cydweithio rhwng timau.

Mae buddsoddi yn ein staff yn flaenoriaeth o bwys. Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu ein rheolwyr drwy roi Rhaglen Sgiliau Rheoli ar waith. Ein bwriad yw adeiladu ar sail y llwyddiant hwn drwy estyn rhagor o gyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu y flwyddyn nesaf.

Ein staff yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr o hyd ac rwy'n falch o'r gwaith caled a'r ymrwymiad y maent yn ei ddangos yn eu gwaith bob dydd.

**Amcan Strategol 3: Adeiladu a chynnal partneriaethau cryf i sicrhau darpariaeth o safon a chyfrannu'n llawn at amcanion cyfiawnder ehangach ac amcanion y Llywodraeth**

A ninnau'n rhan allweddol o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, rydym yn cydweithio'n agos â'n cydweithwyr yn y Weinyddiaeth honno ac yn y Gwasanaeth Sifil ehangach i ddarparu cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac yn effeithiol.

Er inni wynebu heriau eleni, rydym wedi parhau i gydweithio â'n darparwyr a'n partneriaid i sicrhau diwygiadau sylweddol i gymorth cyfreithiol. Rydym yn benderfynol o hyd i barhau i gryfhau ein cysylltiadau allanol wrth inni weithio i symleiddio a mireinio'n prosesau eto.

Yn y blynyddoedd diwethaf, o dan arweiniad Matthew Coats, mae'r sefydliad wedi'i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r Gwasanaeth Sifil, wedi gwella'i drefniadau cyfrifyddu, wedi cyflymu proses gweinyddu cymorth cyfreithiol ac wedi gwella'i ymgysylltu â'i staff. Mae'r llwyddiannau hyn wedi rhoi angor cryf inni barhau i wella gwaith yr Asiantaeth a buddsoddi yn ein staff. Dyma lwyfan cadarn i'r Asiantaeth barhau i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon a chlyfrach i'r cyhoedd ac i ddarparwyr gan helpu sefydliadau partner ar yr un pryd yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac ym mhob rhan o'r llywodraeth.

**Shaun McNally CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
(ers 1 Ebrill 2016)
30 Mehefin 2016

# Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

## Ein pwrpas: Darparu cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac yn effeithiol fel rhan o'r system cyfiawnder

Mae'r gwaith a wnawn i weinyddu cymorth cyfreithiol yn hanfodol er mwyn i'r systemau cyfiawnder sifil a chyfiawnder troseddol weithredu'n deg, yn effeithlon ac yn effeithiol. Byddwn yn cydweithio'n agos â darparwyr cyfreithiol a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ehangach i gyflawni ein pwrpas. Y pwrpas hwnnw sydd wrth galon ein holl benderfyniadau beunyddiol a'n gwaith i wella gwasanaethau cymorth cyfreithiol. Mae ymgysylltu â'n staff a sicrhau eu hymrwymiad yn hanfodol er mwyn inni gyflawni ein pwrpas.

Mae ein pwrpas wedi'i seilio ar ein tri Amcan Strategol ac mae'r rheini wedi aros yn gyson ers tair blynedd bellach.

- **AS 1:** Gwella gwaith achos i ostwng costau, cryfhau trefniadau rheoli a rhoi gwell gwasanaeth i gwsmeriaid;
- **AS 2:** Gwella gallu'r sefydliad i ymateb i'r heriau sydd o'n blaen, gan gynnwys datblygu ein pobl ac ymgysylltu â hwy;
- **AS 3:** Adeiladu a chynnal partneriaethau cryf i sicrhau darpariaeth o safon a chyfrannu'n llawn at amcanion cyfiawnder ehangach ac amcanion y Llywodraeth.

Mae rhagor o fanylion am ein Hamcanion Strategol i'w gweld ar dudalen 8 o'r adran Dadansoddi Perfformiad.

Mae'r amcanion hyn wedi ein gwasanaethu'n dda ac maent yn parhau i gynnig cyfeiriad inni a fydd yn gefn i'n gwaith i wella a moderneiddio'r Asiantaeth, i sicrhau bod gan ein pobl y sgiliau a'r arfau iawn i gyflawni eu rolau, ac i gydweithio â'n partneriaid i adeiladu system Cyfiawnder Un Genedl. Mae hyn yn rhan o weledigaeth y Weinyddiaeth Cyfiawnder yng Nghynllun Adrannol Sengl y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

www.gov.uk/government/publications/moj-single-departmental-plan-2015-to-2020/single-departmental-plan-2015-to-2020

## Ein gwaith

Mae'r Asiantaeth yn gweinyddu cymorth cyfreithiol ledled Cymru a Lloegr. Dyma elfennau craidd ein gwaith:

- prosesu ceisiadau a thalu biliau cymorth cyfreithiol;
- swyddogaeth comisiynu sy'n cynllunio, yn datblygu ac yn tendro contractau newydd;
- darparu cynrychiolaeth amddiffyn annibynnol ar gyfer achosion troseddol drwy gyfrwng Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus.
- defnyddio rheolwyr contract sy'n cydweithio'n agos â'n sylfaen darparwyr i reoli cysylltiadau ledled Cymru a Lloegr

Yn gefn i hyn i gyd, mae gennym y canlynol:

- Cyfarwyddiaeth Cyllid a Digidol sy'n gweinyddu taliadau cymorth cyfreithiol, yn sicrhau cywirdeb y taliadau, yn cefnogi ein gofynion statudol o ran rheolaeth ariannol a rheoli perfformiad, ac yn helpu i wireddu rhaglenni newid allweddol a'r camau a gymerwn wrth symud at drafodion a chysylltiadau digidol;
- a'n Tîm Gweithredol, yn trin cwynion sydd wedi'u trosglwyddo i lefel uwch, ac yn ymateb i geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data
- swyddogaethau ar y cyd, gan gynnwys adnoddau dynol a gwasanaethau cyfreithiol sy'n darparu cymorth i'r Asiantaeth, i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac i adrannau eraill y llywodraeth.

## Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus

Sefydlwyd y Gwasanaeth yn 2001 ac mae'n darparu gwasanaeth amddiffyn troseddol yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Mae'n cynnwys holl ystod gwaith troseddol yng ngorsafoedd yr heddlu, mewn Llysoedd Ynadon ac yn Llys y Goron. Mae cynrychiolaeth ar gael 24 awr y diwrnod, 7 niwrnod yr wythnos i bobl sydd wedi cael eu harestio neu sy'n mynd i un o orsafoedd yr heddlu'n wirfoddol.

## Cysylltiadau â Chymru

Mae'r Asiantaeth yn cadw cysylltiadau agos â llywodraeth Cymru, gan gydnabod y weinyddiaeth ddatganoledig. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n uniongyrchol â grwpiau rhanddeiliaid, er enghraifft, y Byrddau Cyfiawnder Troseddol a Theulu yng Nghymru, Cyngor ar Bopeth Cymru, Gwasanaeth Cynghori a Chymorth y Llys Teulu yng Nghymru, a Shelter Cymru.

## Y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol

Roedd Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012 yn sicrhau bod y broses benderfynu ar gyfer cymorth cyfreithiol yn parhau'n annibynnol oddi ar Weinidogion. Crëwyd rôl y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (DLAC) yn sgil y Ddeddf. Y Cyfarwyddwr sy'n llwyr gyfrifol am wneud penderfyniadau am achosion unigol. Bydd Bwrdd yr Asiantaeth a'r Tîm Cyfreithiol Canolog yn cynorthwyo'r Cyfarwyddwr i sicrhau bod arferion trwyadl ar waith i gynnal annibyniaeth y broses benderfynu. Mae Prif Weithredwr yr Asiantaeth, Shaun McNally, wedi ysgwyddo'r rôl hon er 1 Ebrill 2016. Cyhoeddir adroddiad y Cyfarwyddwr bob blwyddyn ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

## Ein pobl

Mae ein staff wrth galon darparu cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac yn effeithiol ac rydym yn ymdrechu i wneud yr Asiantaeth yn lle gwell i weithio. Byddwn yn gwneud hyn drwy fuddsoddi yng ngallu a sgiliau ein pobl, gan hybu cydweithio, a gwella'r amgylchedd gweithio a'n cyfathrebu.

Yn 2015-16, newidiwyd trefniadau Dysgu'r Gwasanaeth Sifil, gan arwain at lansio rhaglen ddysgu o safon uchel i'n staff ym mis Mawrth 2016. Mae ein pobl hefyd yn dal i elwa o nifer o'n cynlluniau eraill megis Trawsnewid y Gweithle, y Rhaglen Sgiliau Rheoli, Rhaglen Datblygu Arweinwyr yr Asiantaeth, a'r ffaith bod yr Asiantaeth yn cymryd rhan yn y rhaglenni doniau a gynhelir ar draws Whitehall.

**Arolwg pobl**

Yn 2015, gwelwyd lefel ymgysylltu'r staff yn cynyddu drwyddi draw o 65% i 66% ac fe gododd ein safle o 17eg i 14eg ar draws y Gwasanaeth Sifil i gyd (96 o sefydliadau). Llwyddodd yr Asiantaeth i sicrhau bod nifer fawr yn ymateb i'r arolwg gydag 85% o'r staff yn mynegi eu barn. Roeddem ymhlith y 10 uchaf o sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil mewn chwech o'r naw categori yn yr arolwg o'n cymharu â phedwar allan o naw yn 2015.

**Cydraddoldeb ac amrywiaeth**

Un o brif flaenoriaethau'r Asiantaeth yw hyrwyddo gwerthoedd diwylliant cynhwysol ac rydym wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth ddarparu cymorth cyfreithiol ac yn ein gweithle. Mae'n anrhydedd inni fod ymhlith y tri sefydliad uchaf yn y Gwasanaeth Sifil ar gyfer categori Cynhwysiant a Thriniaeth Deg yr arolwg.

I gael gwybod rhagor am ein pobl, darllenwch yr adroddiad am Daliadau a staff ar dudalen 36.

## Ein partneriaid

A ninnau'n un o brif chwaraewyr y system cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn cydweithio ag ystod eang o ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn gweithio gydag ystod eang o ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol sy'n gweithredu mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys ymarferwyr sy'n gweithio fel unigolion, busnesau mawr sydd â sawl swyddfa a chyrff heb fryd ar wneud elw. Bydd rhai'n cynnig cyngor ac yn arbenigo mewn maes penodol yn y gyfraith ac eraill yn gweithio mewn sawl gwahanol gategori o'r gyfraith.

Byddwn hefyd yn cydweithio a rhanddeiliaid ar draws y system cyfiawnder. Mae'r rhain yn cynnwys Cymdeithas y Cyfreithwyr a Chyngor y Bar, y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, Awdurdod Rheoleiddio'r Cyfreithwyr, GLlTEM a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Mae ein cysylltiadau â'n darparwyr yn elfen ganolog o waith yr Asiantaeth. Drwy gyfarfodydd megis Grwpiau Ymgynghorol y Contract Troseddol a Sifil, byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n rheolaidd ynglŷn â'r materion gweithredol pwysig â'r prif gyrff cynrychioladol. Bob dydd, bydd ein rheolwyr contractau a'n staff rheoli achosion yn cydweithio'n agos â'n sylfaen darparwyr i sicrhau bod ein contractau'n mynd rhagddynt yn hwylus a bod ceisiadau a biliau'n cael eu prosesu'n ddidrafferth. Byddwn hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth am ein gwaith yn rheolaidd ar dudalennau cymorth cyfreithiol GOV.UK.

## Ein rhaglenni diwygio

Roedd cyflwyno Deddf LASPO 2012 yn dangos ymrwymiad y llywodraeth i sicrhau bod cymorth cyfreithiol ar gael i'r sawl yr oedd ei angen arnynt fwyaf ac mewn achosion lle'r oedd modd cyfiawnhau cyngor cyfreithiol neu gynrychiolaeth gyfreithiol. Yn gefn i'r canolbwyntio parhaus ar sicrhau system cymorth cyfreithiol credadwy ac effeithlon drwy gydol 2015-16 roedd tair rhaglen ddiwygio allweddol:

- Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol;
- Y Rhaglen Cyflawni Integredig;
- Y Rhaglen Newid Troseddol.

### Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol

Ym mis Hydref 2012, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod angen rhagor o arbedion ar draws y Weinyddiaeth Cyfiawnder a bod angen gostwng cost cymorth cyfreithiol, gan sicrhau bod y cyhoedd yn dal i ymddiried yn y system cyfiawnder. Cyflwynwyd rhaglen Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol er mwyn gwireddu'r diwygiadau hyn..

Cyhoeddwyd ymgynghoriad ynghylch nifer o ddiwygiadau arfaethedig a rhoddwyd y newidiadau i gymorth cyfreithiol yn sgil hynny ar waith fesul tri cham gwahanol. Daeth y rhaglen i ben ar 31 Mai 2016.

### Y Rhaglen Cyflawni Integredig

Mae'r rhaglen hon wedi cyflwyno dull electronig o reoli cynrychiolaeth sifil, gan gynnwys ceisiadau, diwygiadau a biliau. Mae hyn yn cynnwys darparu'r System Rheoli Cleientiaid a Chostau, system newydd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil. Mae'r system hon yn cynnwys rhyngwyneb ar y we i ddarparwyr, dull ar gyfer datrys gwaith achos, a system priflyfr a thaliadau cyffredinol ar gyfer gwaith sifil a throseddol, a'r cyfan wedi'u cyfuno'n un system o'r naill ben i'r llall.

Lledaenwyd y system i bob darparwr cymorth cyfreithiol ar sail wirfoddol o fis Medi 2014 ymlaen, gan ei gwneud yn orfodol fesul cam yn ystod 2015-16. O'r 1 Ebrill 2016 ymlaen, daeth yn orfodol cyflwyno pob cais sifil ar lein drwy'r System Rheoli Cleientiaid a Chostau.

Mae cyflwyno ceisiadau a biliau drwy'r system hon yn arbed amser i ddarparwyr ac yn arbed cost anfon ffurflenni papur drwy'r post. Roedd rhoi system mor fawr a chymhleth ar waith yn her i ddefnyddwyr mewnol ac allanol, a thrwy gydol 2015-16 neilltuwyd adnoddau i ddatrys problemau ac i wella'r system. Mae rheolwyr contractau a thîm y rhaglen yn dal i helpu darparwyr drwy'r cyfnod pontio ac mae rhaglen hyfforddi wedi'i darparu ar gyfer staff mewnol yr Asiantaeth

Yn ystod 2015-16, cyflwynwyd nifer o welliannau i'r system er budd defnyddwyr. Ar gyfer defnyddwyr mewnol, cyflwynwyd gwelliannau i'r ciw gwaith cyffredinol er mwyn ei gwneud yn haws dynodi gwaith. Yn allanol, mae'r asesiadau modd a haeddiant wedi'u hailgynllunio a hefyd nodwedd lanlwytho newydd wedi'i chyflwyno ar gyfer dogfennau. Rhoddwyd hyn ar waith ym mis Ebrill 2016.

**Y Rhaglen Newid Troseddol**

Nod y rhaglen hon oedd moderneiddio prosesu cymorth cyfreithiol troseddol. Roedd hyn yn cynnwys galluogi pob darparwr i gyflwyno ceisiadau a biliau am gymorth cyfreithiol troseddol ar lein gan symleiddio a chanoli prosesu'r holl geisiadau ar yr un pryd.

Ym mis Gorffennaf 2015, trosglwyddwyd pob cais am gymorth cyfreithiol troseddol o GLlTEM i'r Asiantaeth. Cyn y trosglwyddo, byddai pob cais am gymorth cyfreithiol troseddol yn cael ei brosesu mewn nifer o lysoedd ledled Cymru a Lloegr. Drwy ganoli'r gwaith hwn mewn tri lleoliad, ac yn unol â strategaethau ehangach ar gyfer ystadau, rydym wedi llwyddo i arbed arian sylweddol a hefyd wedi gwella ansawdd penderfyniadau a threfniadau sicrwydd i'r Asiantaeth.

Ochr yn ochr â hyn, drwy gyflwyno eFfurflen ar gyfer ceisiadau troseddol mae defnyddwyr yn gallu cyflwyno ceisiadau am gymorth cyfreithiol ar lein. Erbyn mis Ebrill 2016, roedd dros 90% o'r holl geisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol yn cael eu gwneud ar lein.

Rydym yn dal i gamu ymlaen, gan ddwyn ein proses filio ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol ar lein drwy waith partneriaeth a chydweithio rhwng yr Asiantaeth ac Adran Ddigidol y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae system filio newydd wrthi'n cael ei datblygu i adfocadau gyflwyno'u biliau ar lein ac mae'r gwaith wedi dechrau i ledaenu'r drefn hon yn genedlaethol.

# Dadansoddi’r perfformiad

## Crynodeb o’r perfformiad

Dyma rai o brif lwyddiannau’r flwyddyn:

- Perfformiad cryf gyda golwg ar bob Dangosydd Perfformiad Allweddol - mae’r manylion i’w gweld yn yr adran Golwg ar ein blwyddyn;
- cynnydd sylweddol o ran ein tair rhaglen ddiwygio - fel y gwelir ar dudalen 6;
- cynnydd eto yn sgôr ymgysylltu’r arolwg ymhlith ein pobl, wedi codi o 65% i 66%;
- cwblhau Trawsnewid ein Gweithle rhaglen sy’n galluogi ein pobl i weithio’n fwy hyblyg;
- rhaglen o gyrsiau wyneb-yn-wyneb ac e-ddysgu i gryfhau sgiliau ein rheolwyr.

## Golwg ar ein blwyddyn

Dyma ein trydedd flwyddyn fel asiantaeth weithredol ac yn ystod y flwyddyn hon, gwelsom nifer o welliannau a’r rheini wedi cael effaith gadarnhaol ar ein ffordd o weithio fel sefydliad. Llwyddwyd i wneud hyn a ninnau’n parhau i berfformio’n gryf o ran ein hamcanion.

**Ein Pwrpas**
Darparu cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac yn effeithiol fel rhan o’r system cyfiawndercyfiawnder

| **Amcan Strategol 1**<br>Gwella gwaith achos i ostwng costau, cryfhau trefniadau rheoli a rhoi gwell gwasanaeth i gwsmeriaid | | |
|---|---|---|
| Darparu gwasanaeth effeithlon ac arbennig i gwsmeriaid | Gwella ein prosesau ar gyfer talu biliau a phrosesu ceisiadau | Darparu gwerth am arian i gwsmeriaid |

| **Amcan Strategol 2**<br>Gwella gallu’r sefydliad i ymateb i’r heriau sydd o’n blaen, gan gynnwys datblygu ein pobl ac ymgysylltu â hwy. | | |
|---|---|---|
| Datblygu ein staff a gwella lefelau ymgysylltu | Gwella perfformiad rheolaeth, dysgu a datblygu | Datblygu gallu o fewn y sefydliad gan sicrhau ein bod yn barod ar gyfer Digidol yn Bennaf |

| **Amcan Strategol 3:**<br>Adeiladu a chynnal partneriaethau cryf i sicrhau darpariaeth o safon a chyfrannu’n llawn at amcanion cyfiawnder ehangach ac amcanion y Llywodraeth. | | |
|---|---|---|
| Cyfrannu at nodau ehangach y system cyfiawnder | Gweithio’n gadarnhaol gydag adrannau eraill y llywodraeth | Gweithio gyda darparwyr i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o safon |

## Ein perfformiad o'i gymharu â'n tri Amcan Strategol

Rydym wedi olrhain a monitro'r cerrig milltir a'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r Amcanion Strategol drwy ein fframwaith rheoli perfformiad sy'n cynnwys pedwar Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) a'r rheini'n mesur elfennau sylweddol o'n gwaith beunyddiol:

- Darparu gwasanaethau;
- Cyllid ac effeithlonrwydd;
- pobl a gallu;
- enw da.

Mae'r fframwaith rheoli perfformiad hefyd yn mesur cerrig milltir allweddol gyda golwg ar gyflawni ymrwymiadau cynllun busnes yr Asiantaeth Drwy gydol y flwyddyn, adroddwyd am y canlyniadau wrth y Tîm Gweithredol, Bwrdd yr Asiantaeth a Phwyllgor Gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Rhoddwyd gwybod am y cynnydd i holl staff yr Asiantaeth drwy gyfrwng ein safle ar y fewnrwyd bob mis.

Llwyddwyd i gyflawni pob un o'r pedwar Dangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer 2015-16.

**Allwedd ar gyfer adrodd am gyrraedd cerrig milltir**

- ☑ Cyflawnwyd
- ⇔ Cyflawnwyd gan mwyaf
- ⇔ Cyflawnwyd yn rhannol
- ☒ Ni chyflawnwyd

**Amcan Strategol 1:**
Gwella gwaith achos i ostwng costau, gwella'r trefniadau rheoli a rhoi gwell gwasanaeth i gwsmeriaid

### Cerrig milltir sy'n gysylltiedig ag Amcan Strategol 1

- ☑ Cyfraddau gwallau isel ar gyfer taliadau i ddarparwyr ac asesu cymhwysedd;
- ☑ Darparu Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus o safon uchel;
- ☑ Gwneud defnyddio'r System Rheoli Cleientiaid a Chostau'n orfodol;
- ☑ Parhau i ddigideiddio ein gwasanaethau a'n prosesu;
- ☑ Lleihau amserau prosesu ar gyfer asesu cymhwysedd i ddwy wythnos a thalu o fewn pedair wythnos ar gyfer 90% o'r achosion;
- ☑ Parhau i gynyddu casgliadau drwy gynllun Profion Modd Llys y Goron ;
- ☑ Sicrhau dull penderfynu annibynnol y gellir ei amddiffyn yn rôl y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol; a
- ☑ Datblygu ein Strategaeth Sianelau.

Rydym wedi gwneud cryn gynnydd o ran ein hamcan i ddigideiddio ein gwasanaethau a symud tuag at weithio ar lein yn llwyr gyda'n darparwyr. Llwyddwyd i wneud hyn drwy roi eFfurflen ar waith i'w defnyddio wrth gyflwyno ceisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol ar lein, gwneud defnyddio'r System Rheoli Cleientiaid a Chostau'n orfodol ar gyfer cyflwyno ceisiadau am gymorth cyfreithiol sifil a biliau ar lein o 1 Ebrill 2016 ymlaen a lledaenu trefn ddigidol ar gyfer cyflwyno biliau cyfryngu.

Datblygwyd ein Strategaeth Sianelau drwy ddefnyddio'r cwmwl ar gyfer canolfan alwadau i gwsmeriaid sifil. Mae hyn wedi helpu i wella'r perfformiad. Rydym yn dal i ganolbwyntio ar sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau ac yn asesu biliau'n gywir gan gyflymu ein prosesu ar yr un pryd.

Mae Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus wedi parhau i ddarparu cynrychiolaeth o safon uchel mewn achosion troseddol ac fe ddefnyddiwyd cyfreithwyr y gwasanaeth yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol i gefnogi'r farchnad cymorth cyfreithiol troseddol.

Roedd 2015-16 yn flwyddyn heb ei hail o ran casglu arian parod yng nghyswllt dyledion cynllun Profion Modd Llys y Goron a chasglwyd gwerth £15.2m mewn arian parod (2014-15: £10.1m).

## Mae hyn yn gysylltiedig â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ganlyn:

**DPA: Rheolaeth Ariannol**

- Costau gweinyddu'r Asiantaeth - Mae'n sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac yn arbed costau sy'n ofynnol er mwyn i'r Asiantaeth allu rheoli ei gweithrediadau o fewn y gyllideb weinyddu a ddyrennir inni.
- Gwario'r gronfa cymorth cyfreithiol - Mae'n monitro'r gwariant ar gymorth cyfreithiol, gan gynnwys sicrhau arbedion ariannol.
- Cyfradd gwallau net - Mae'n monitro i ba raddau y bydwn yn llwyddo i gydweithio â darparwyr a pha mor gywir yw ein gwaith o ran caniatáu ceisiadau am gymorth cyfreithiol a phrosesu biliau.

Yn 2015-16, llwyddwyd i gynnal stiwardiaeth ariannol gref, gan weithredu o fewn y gyllideb o ran ein gweinyddu ac o ran gwario'r gronfa. Gweler y sylwadau am reolaeth Ariannol a'r Datganiadau Ariannol i gael rhagor o fanylion am wariant yr Asiantaeth.

Mae ein gwaith gyda darparwyr yn gwella ein stiwardiaeth ariannol o hyd drwy fonitro cywirdeb ein gwaith wrth inni ganiatáu ceisiadau am gymorth cyfreithiol a phrosesu biliau. Y gyfradd wallau net a amcangyfrifir ar gyfer 2015-16 yw 0.8% o'i gymharu â 0.7% ar gyfer 2014-15. Er bod y gyfradd wallau wedi gwella ac wedi gostwng yn y rhan fwyaf o'r meysydd, mae'r cynnydd cyffredinol yn adlewyrchu'r ffaith bod y gyfradd wedi gwaethygu ym maes Troseddau Is a Chynrychiolaeth Sifil. Mae rhagor o wybodaeth am sut mae'r Asiantaeth wedi rheoli'r gyfradd wallau yn ystod 2015-16 i'w gweld yn y datganiad am Lywodraethu ar dudalen 33.

**DPA: Cyflawni Gweithredol**

- Rheoli achosion - mesur pa mor gyflym y byddwn yn prosesu ceisiadau sifil a throseddol, ac yn talu biliau darparwyr.
- Rheoli Contractau - monitro perfformiad darparwyr o ran rheoli contractau.
- Gwasanaethau digidol - sicrhau ein bod yn camu ymlaen at fod yn sefydliad cwbl ddigidol.

Yn 2015-16, llwyddwyd i gynnal ein perfformiad o ran prosesu ceisiadau a thalu biliau. Ar gyfer y flwyddyn, proseswyd 97% o geisiadau sifil o fewn 20 diwrnod gwaith (targed 85%) a 92% o geisiadau troseddol mewn 2 ddiwrnod gwaith (targed 90%). Ynghyd â thalu 94% o filiau o fewn mis ar ôl cyflwyno bil cywir (targed dros 90%) mae hyn wedi cyfrannu at ein cyflawni gweithredol.

At hynny, mae cyfraddau gwrthod ceisiadau sifil a throseddol yn dal yn is na'r targedau corfforaethol sef 15% a 10%, yn y drefn honno.

Rydym yn dal i gamu ymlaen at weithio'n llwyr ar lein gyda'n darparwyr a bellach mae dros 80% o'n trafodion gyda'n darparwyr (cyflwyno ceisiadau a biliau) yn cael eu cwblhau ar lein.

**Amcan Strategol 2:**
Gwella gallu'r sefydliad i ymateb i'r heriau sydd o'n blaen, gan gynnwys datblygu ein pobl ac ymgysylltu â hwy..

**Cerrig milltir sy'n gysylltiedig ag Amcan Strategol 2**

- Grŵp yr Uwch Arweinwyr yn ymweld â phob swyddfa ranbarthol ddwywaith y flwyddyn a chynnal cyfarfodydd rheolwyr dwywaith y flwyddyn
- Lansio Rhaglen Sgiliau Rheoli; gan helpu i ddatblygu ein pobl ac arfogi rheolwyr â'r sgiliau i arwain drwy Drawsnewid y Gweithle;
- Gweithredu rhaglen Trawsnewid y Gweithle;
- Ymgysylltu'n well â'n staff drwy'r cynllun gweithredu cenedlaethol a'n harolwg ymgysylltu â staff;
- Annog a chefnogi staff i ddefnyddio'r cyfleoedd dysgu #my5days, gan gynnwys cyrsiau Dysgu'r Gwasanaeth Sifil a chyfleoedd i gysgodi;
- Darparu hyfforddiant sgiliau ac arwain i'r staff;
- Parhau i ymwneud â chynllun gallu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gyfan i ddatblygu'r lefel iawn o sgiliau yn yr Asiantaeth.

Rydym yn rhoi gwerth ar ein pobl ac yn parhau i wneud yr Asiantaeth yn lle gwell i weithio. Roedd canlyniadau'r arolwg pobl yn 2015 yn dangos bod ein sgôr ymgysylltu wedi codi o 65% i 66%. Mae'r Asiantaeth yn falch o fod ymhlith y 10 sefydliad uchaf yn y Gwasanaeth Sifil mewn chwech o'r naw categori yn yr arolwg. Yn benodol, rydym yn falch o fod yn drydydd drwy'r Gwasanaeth Sifil am Gynhwysiant a Thriniaeth Deg. Ar ôl canlyniadau'r arolwg, rydym wedi lansio ein cynllun ymgysylltu cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar gryfhau ein harweinyddiaeth, datblygu ein pobl, a gwella ein gweithle.

Rydym yn rhoi gwerth mawr ar ddysgu a datblygu yn niwylliant yr Asiantaeth. Anogir ein pobl i fanteisio ar bum niwrnod o hyfforddiant o leiaf a ddarperir bob blwyddyn (#my5days). Ymhlith y cyfleoedd i ddysgu a datblygu mae mentora, hyfforddiant ar lein, hyfforddiant wyneb-yn-wyneb, anogaeth, cysgodi swyddi, cyrsiau hyfforddi, gweithdai a siaradwyr gwadd.

Mae'r Rhaglen Sgiliau Rheoli a lansiwyd yn 2015 yn cryfhau sgiliau ein pobl eto ac yn grymuso rheolwyr i ysbrydoli eu timau. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar bedwar gwahanol faes o sgiliau: pobl; newid; yr hunan; a busnes. Darparwyd yr hyfforddiant drwy gyfrwng amrywiaeth o sesiynau wyneb-yn-wyneb, dosbarthiadau meistr ac e-ddysgu.

Fel rhan o'r Proffesiwn Cyflawni Gweithredol, mae 59 o'n staff wedi ennill cymwysterau eleni. Lansiwyd y proffesiwn yn y Gwasanaeth Sifil yn 2013 ac fe'i bwriedir yn bennaf ar gyfer pobl sy'n ymwneud â chwsmeriaid allanol, naill ai wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn, neu drwy ohebiaeth. Un o'r manteision mwyaf i'n pobl yw gallu cychwyn ar daith academaidd ac astudio ar gyfer ystod o gymwysterau. Mae'r cymwysterau hyn wedi'u datblygu gyda'r City & Guilds a'r Sefydliad Rheolaeth Siartredig ac maent yn eu hachredu.

Drwy gydol 2015-16 trawsnewidiwyd ein gweithle ni fel rhan o gynllun y llywodraeth gyfan i Drawsnewid y Gweithle. Mae hyn wedi creu gwell amgylchedd gweithio, a darparu gweithleoedd ac arfau modern i alluogi'r holl staff i weithio'n hyblyg. Er mwyn cyfathrebu'n well â'n staff, rydym wedi lledaenu 'Teledu'r Asiantaeth' - sianel gyfathrebu i roi'r newyddion diweddaraf i'r staff ym mhob swyddfa am yr Asiantaeth a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ehangach.

## Mae hyn yn gysylltiedig â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ganlyn:

**DPA: Pobl**

- Absenoldeb oherwydd salwch - monitro a lleihau nifer y diwrnodau a gollir drwy salwch.

Ar gyfartaledd, nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd salwch staff drwy'r Asiantaeth, gan gynnwys pobl a ymadawodd â'u swyddi yn ystod y flwyddyn oedd 6.9, o'i gymharu â 7.1 ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015.

Aeth Polisi Presenoldeb a Rheoli'r Weinyddiaeth Cyfiawnder y mae'r Asiantaeth yn ei fabwysiadu'n fyw ar 1 Chwefror 2016 a darparwyd sesiynau briffio i'r staff i'w haddysgu ac i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi diwygiedig. Mae'r polisi diwygiedig yn symlach, ac mae'n dilyn un broses o'r naill ben i'r llall ar gyfer rheoli presenoldeb. Mae'n cynnig canllawiau eglurach i helpu rheolwyr i sicrhau bod presenoldeb yn cael ei reoli'n briodol ac mewn ffordd gefnogol. Mae'n pwysleisio'r cydgyfrifoldeb am iechyd a lles yn y gwaith, gan ganolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar ac yn rhagweithiol i gefnogi ein pobl.

**Amcan Strategol 3:**
Adeiladu a chynnal partneriaethau cryf i sicrhau darpariaeth o safon a chyfrannu'n llawn at amcanion cyfiawnder ehangach ac amcanion y Llywodraeth.

**Cerrig milltir sy'n gysylltiedig ag Amcan Strategol 3**

- ✔ Parhau i weithio mewn partneriaeth i wireddu ein rhaglenni diwygio; y Rhaglen Cyflawni Integredig, y Rhaglen Newid Troseddol a Thrawsnewid Cymorth cyfreithiol;
- ✔ Nodi arbedion effeithlonrwydd yn sgil gweithio gyda rhannau eraill o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder;
- ✔ Parhau i gydweithio ag adrannau eraill y llywodraeth;
- ✔ Symud tuag at weithio 100% ar lein gyda darparwyr;
- ⇔ Tendro a dyfarnu contractau yng nghategori sifil a chategori troseddol y gyfraith;
- ✔ Caffael canolfan alwadau i roi cyfreithwyr amddiffyn troseddol (ar ddyletswydd) ar waith

Rydym wedi gwneud cynnydd da ar y cyd â'n cydweithwyr yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder, â'n darparwyr ac â'n cydweithwyr yn y Gwasanaeth Sifil ehangach. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda darparwyr i roi diwygiadau newydd ar waith a lledaenu systemau newydd i gyflwyno ceisiadau a biliau. Mae'r Asiantaeth wedi darparu'r cymorth, y gefnogaeth a'r hyfforddiant i ddarparwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i roi'r newidiadau ar waith. Llwyddwyd i drosglwyddo prosesu ceisiadau cymorth cyfreithiol troseddol a staff o GLlTEM i'r Asiantaeth drwy ymgysylltu'n agos â GLlTEM, gan arwain at arbedion drwy'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Rydym wedi sicrhau gwasanaeth llawn ar gyfer contractau cymorth cyfreithiol yn y maes sifil a'r maes troseddol drwy gydol 2015/16. Ar 28 Ionawr 2016, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol benderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â chyflwyno'r system gontractio ddeuol ym maes cymorth cyfreithiol troseddol gan ddweud yn hytrach y byddai'r trefniadau presennol yn cael eu hestyn i sicrhau parhad y gwasanaeth nes bod contractau newydd wedi'u caffael.

## Mae hyn yn gysylltiedig â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ganlyn:

**DPA: Gohebiaeth a Gwasanaeth i Gwsmeriaid**

- Monitro ein gwasanaeth i gwsmeriaid wrth inni ymateb i ymholiadau, gohebiaeth a chwynion, gan gynnwys ceisiadau dan y ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu
- Monitro'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu drwy linell gymorth ardystiedig y gwasanaeth sifil, gan fesur pa mor gyflym y byddwn yn ateb galwadau a sicrhau bod ein cwsmeriaid yn fodlon.

Rydym wedi cynnal ein perfformiad gyda golwg ar y targedau statudol ar gyfer ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data. Atebwyd 93% o geisiadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn 20 diwrnod (targed 90%) a 91% o geisiadau'r Ddeddf Diogelu Data o fewn 40 diwrnod (targed 90%). Mae cwynion a gohebiaeth gan Aelodau Seneddol wedi cael eu trin yn brydlon gyda dros 99% yn cael eu trin o fewn 20 diwrnod (targed 90%).

Mae'r perfformiad wedi parhau i wella wrth ateb galwadau ar ein llinell gymorth ardystiedig ar gyfer gwaith sifil. Ar gyfartaledd, rydym wedi cyflymu ein hatebion eto i 2:35 munud yn 2015-16 o'i gymharu â 2.48 munud yn 2014-15. Mae cyfradd y galwadau y rhoddir y gorau iddynt hefyd wedi gwella yn yr un modd, a'r ganran bellach yn 6.8% o'i chymharu â 10% yn 2014-15.

# Adroddiad am gynaliadwyedd

Dyma ein trydydd adroddiad am Gynaliadwyedd fel asiantaeth weithredol. Rydym wedi ymrwymo i gyflawni amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol datblygu cynaliadwy. Er mwyn amharu llai ar yr amgylchedd, rydym wedi gweithio tuag at Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth ac ymrwymiadau'r llywodraeth i sicrhau trefniadau gweithredu a chaffael cynaliadwy.

Mae ein strategaeth ar gyfer cynaliadwyedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Ymwybyddiaeth o'r amgylchedd - Mae sicrhau cyn lleied o wastraff â phosibl ac ailgylchu'n arfer gennym ers tro yn ein gwaith o ddydd i ddydd. Byddwn hefyd yn hybu ymddygiad cyfrifol o ran caffael a rheoli gwastraff. Yn benodol, bydd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn darparu manylion am Safonau Prynu'r Llywodraeth ar gyfer ystod o gynnyrch. Mae gofynion Safonau Prynu'r Llywodraeth yn rhai y mae'n orfodol inni eu defnyddio ac maent wedi'u cynnwys yn rhan o'r holl weithgarwch tendro lle byddant yn berthnasol.

- Ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd - mae Tîm Datblygu Cynaliadwy'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn dal i reoli ac adolygu adeiladau a safleoedd sy'n peri risg uchel. Mae'n tynnu sylw at eiddo sy'n agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd, megis tymheredd, llifogydd ac amgylchiadau hinsoddol niweidiol eraill. Mae hyn yn ein galluogi i werthuso'r ynni a ddefnyddir er mwyn llywio ein strategaeth weithredol yn well ac er mwyn inni weithredu'n fwy cynaliaidwy.

Drwyddi draw, rydym wedi parhau i drawsnewid cymorth cyfreithiol drwy'r Rhaglen Cyflawni Integredig a'r Rhaglen Newid Troseddol er mwyn symud rhagor o'n gwaith ar lein. Manteision gweithio mewn oes ddigidol ac yn oes y cwmwl yw bod ein gwasanaeth yn gallu symud o fod yn sefydliad sy'n darparu gwasanaethau ar bapur at fod yn sefydliad di-bapur. O ran cymorth cyfreithiol sifil, lledaenwyd ein System Rheoli Cleientiaid a Chostau a'i gwneud yn orfodol ar gyfer cyflwyno ceisiadau a biliau cymorth cyfreithiol sifil. Ar gyfer ceisiadau am gymorth cyfreithiol, rhoddwyd eFfurflenni newydd ar waith i alluogi darparwyr i gyflwyno'u ceisiadau ar lein. Hefyd, rydym wedi rhoi dulliau digidol ar waith ar gyfer cyflwyno biliau cyfryngu. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ein gwaith i barhau i ddigideiddio ein gwasanaethau a symud yn llwyr at weithio ar lein gyda'n darparwyr.

Rydym hefyd wedi lledaenu technoleg newydd i'n staff drwy Drawsnewid y Gweithle. Bu'r cynllun hwn yn help i leihau'r teithio ar gyfer busnes yn fewnol rhwng swyddfeydd yr Asiantaeth ac yn allanol i swyddfeydd darparwyr gwasanaeth - gostyngiad o 1,354,000km (26.0%). Yn ogystal â hynny, ceisiwyd sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy rannu swyddogaethau, gan gynnwys Shared Services Connected Limited, y Tîm Cyfreithiol Canolog, a'r Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol sy'n darparu cymorth i'r Asiantaeth, i'r Weinyddiaeth ac i adrannau eraill y llywodraeth. Mae hyn yn golygu nad oes angen cynifer o staff ac adnoddau, na chymaint o swyddfeydd ac mae'n gostwng allyriadau.

**Adrodd am fesurau cynaliadwyedd amgylcheddol**

Cwmpas, cyfyngiadau, ac amcangyfrifon - Mae a wnelo'r adroddiad hwn â'r 15 adeilad a ddefnyddir gan yr Asiantaeth. Nid ydym wedi cyfrif nifer o'r adeiladau sy'n cael eu rhannu oherwydd nad yw'n rhwydd cael gafael ar ddata dibynadwy am gynaliadwyedd a/neu dynnu data perthnasol o'r wybodaeth ynglŷn â thaliadau am wasanaethau a ddarperir gan y prydlesydd. Gan fod y rhain yn gymharol fach ac oherwydd mai'r defnyddiwr mwyaf sy'n adrodd am adeiladau a rennir, sef, gan amlaf, un o adrannau eraill y llywodraeth, nid oes fawr o fudd inni dynnu'r data am gynaliadwyedd o'r wybodaeth gyfansawdd. Mae hyn yn gyson ag arferion y llywodraeth ehangach ac â'r drefn a ddilynwyd yn adroddiad y llynedd. Ni fydd eithrio'r meysydd hyn yn cael effaith o sylwedd ar ein hadroddiad am gynaliadwyedd yn ei gyfanrwydd. Os nad yw darparwyr wedi darparu data ynglŷn â defnyddio ynni ac ati, rydym wedi allosod taliadau i'r diwydiant i'n gwariant ariannol.

## Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

| Ynni | | 2015-16 | 2014-15[1] | 2013-14[1] | 2012-13[1] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (Tunnelli o CO2 sydd gyfwerth â (tCO2e))** | Cwmpas 1 (uniongyrchol) o ffynonellau ynni ym mherchnogaeth neu o dan reolaeth y sefydliad[2] | **377** | 288 | **556** | 588 |
| | Cwmpas 2 (anuniongyrchol) o ynni anadnewyddadwy a ddefnyddir a ddarperir gan barti arall[2] | **1,012** | 1,029 | **861** | 1,137 |
| | Cwmpas 2 (anuniongyrchol) o ynni adnewyddadwy a ddefnyddir a ddarperir gan barti arall[2] | **242** | 246 | **206** | 272 |
| | Cwmpas 3 o allyriadau teithio ar gyfer busnes swyddogol | **268** | 344 | **279** | 104 |
| | **Cyfanswm** | **1,899** | 1,907 | **1,902** | 2,101 |
| **Dangosyddion anariannol (Megawatt awr MWh)** | Cwmpas 1 (uniongyrchol) o ffynonellau ynni ym mherchnogaeth neu o dan reolaeth y sefydliad [2] | **2,042** | 1,566 | **3,019** | 3,193 |
| | Cwmpas 2 (anuniongyrchol) o ynni anadnewyddadwy a ddefnyddir a ddarperir gan barti arall[2] | **2,023** | 2,057 | **1,932** | 2,551 |
| | Cwmpas 2 (anuniongyrchol) o ynni adnewyddadwy a ddefnyddir a ddarperir gan ân barti arall[2] | **484** | 492 | **462** | 610 |
| | **Cyfanswm** | **4,549** | 4,115 | **5,413** | 6,354 |
| **Dangosyddion ariannol (£000)** | Gwariant crynswth ar ynni[2] | **279** | 283 | **335** | 424 |
| | Gwariant ar deithio ar gyfer busnes swyddogol | **896** | 1,459 | **1,247** | 548 |
| | **Cyfanswm** | **1,175** | 1,742 | **1,582** | 972 |

1 Rydym wedi parhau i wella ein system ar gyfer cipio a mesur ein hadroddiadau am gynaliadwyedd. Mae canlyniadau'r blynyddoedd cymharol wedi cael eu hailddatgan er mwyn sicrhau cysondeb.
2 Adroddwyd am y wybodaeth sydd ar gael ynghylch: Caergrawnt, Bryste, Nottingham, Leeds, De Tyneside, Darlington, Pontypridd, Abertawe, Birmingham, Cheltenham, Brighton, Lerpwl a Chaerdydd.

Drwyddi draw, mae'r allyriadau wedi gostwng o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol yn sgil ein hymrwymiad i leihau ein hôl-troed carbon wrth weithredu.

Gwelwyd cynnydd yn allyriadau Cwmpas 1 (nwy ar gyfer gwresogi) oherwydd bod mwy o bobl yn gweithio yn yr adeiladau sy'n golygu bod angen rhagor o wres. Y rheswm dros hyn oedd bod Tîm Ceisiadau Troseddol GLlTEM a'r Tîm Costau Cenedlaethol wedi cael eu trosglwyddo ac wedi dod yn staff parhaol i'r Asiantaeth ar gyfer blwyddyn lawn 2015-16. Gwelwyd cynnydd hefyd o 10% ym mhris nwy rhwng 2014-15 a 2015-16.

Mae'r gwariant a'r defnydd ar allyriadau Cwmpas 2 (trydan a brynwyd) wedi aros yn gymharol gyson o'i gymharu â'r llynedd oherwydd bod yr Asiantaeth yn gweithredu ar raddfa sefydlog.

## Teithio

| Teithio | 2015-16 Kms(000) | 2014-15 Kms(000) | Newid (%) | 2015-16 ($tCO^2e$) | 2014-15 ($tCO^2e$) | Newid (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cerbyd modur | **513** | 561 | **(8.6)** | 98 | **104** | (5.8) |
| Trên | **3,193** | 4,415 | **(27.7)** | 144 | **199** | (27.6) |
| Awyren | **153** | 237 | **(35.4)** | 26 | **41** | (36.6) |
| **Cyfanswm** | **3,859** | 5,213 | **(26.0)** | 268 | **344** | (22.1) |

Mae gostyngiad o 22.1% wedi bod yn yr allyriadau yn sgil teithio ar reilffyrdd, ffyrdd ac ar awyrennau domestig. Mae rhoi Cynllun Trawsnewid y Gweithle ar waith yn golygu ein bod wedi bod yn defnyddio systemau fideo, telegynadledda a gwibnegeseua, ac felly bod llai o angen teithio i gyfarfodydd ac yn ôl. Mae hefyd yn bosibl cysylltu'r gostyngiadau hyn ag ymdrechion drwy gydol 2015 i leihau ein gwariant dewisol, gan gyfyngu'r teithio i'r hyn a oedd yn hanfodol ar gyfer y busnes. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyn wrth fwrw ymlaen er mwyn cadw'r gwariant ar deithio a'r allyriadau cyn ised â phosibl.

## Rheoli gwastraff a'i leihau

| Gwastraff | | 2015-16 | 2014-15[1] | 2013-14[1] | 2012-13[1] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth anariannol (tunelli)** | Gwastraff a anfonwyd I safle tirlenwi | **198** | 170 | **Dim gwybodaeth ar gael** | Dim gwybodaeth ar gael |
| | Gwastraff a ailgylchwyd/ailddefnyddiwyd[2] | **149** | 127 | **159** | 148 |
| | **Cyfanswm** | **347** | 297 | **159** | 148 |
| **Gwybodaeth ariannol (£000)** | Gwastraff a anfonwyd i safle tirlenwi | **37** | 32 | **Dim gwybodaeth ar gael** | Dim gwybodaeth ar gael |
| | Gwastraff a ailgylchwyd/ailddefnyddiwyd | **9** | 8 | **18** | 17 |
| | **Cyfanswm** | **46** | 40 | **18** | 17 |

1 Rydym wedi parhau i wella ein system ar gyfer cipio a mesur ein hadroddiadau am gynaliadwyedd. Mae canlyniadau'r blynyddoedd cymharol wedi cael eu hailddatgan er mwyn sicrhau cysondeb.
2 Adroddwyd am y wybodaeth sydd ar gael ynghylch Caergrawnt, Brighton, Reading, Bryste, Caerdydd, Birmingham, De Tyneside, Cheltenham, Leeds, Pontypridd, Nottingham ac Abertawe.

Mae'r gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi wedi cynyddu oherwydd bod Tîm Ceisiadau Troseddol a Thîm Costau Cenedlaethol GLlTEM wedi'u trosglwyddo i'r Asiantaeth, sy'n golygu bod mwy o bobl yn gweithio yn y swyddfeydd a mwy o gyfleusterau ac felly, bod gofyn symud a gwaredu gwastraff ychwanegol. Rydym yn dal i ddarparu biniau ailgylchu hwylus ym mhob un o'n swyddfeydd er mwyn ceisio sicrhau bod cyn lleied o wastraff â phosibl yn mynd i safleoedd tirlenwi a sicrhau bod adnoddau meidraidd yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau posibl. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y gwastraff y byddwn yn ei ailgylchu ac yn ei ailddefnyddio.

## Defnyddio adnoddau meidraidd

| Dŵr[2] | | 2015-16 | 2014-15[1] | 2013-14[1] | 2012-13[1] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth anariannol (metrau ciwbig)** | Dŵr a ddefnyddiwyd | **12,292** | 12,189 | **15,096** | 16,499 |
| **Gwybodaeth ariannol (£000)** | Costau'r cyflenwad dŵr | **14** | 14 | **18** | 19 |

1 Rydym wedi parhau i wella ein system ar gyfer cipio a mesur ein hadroddiadau am gynaliadwyedd. Mae canlyniadau'r blynyddoedd cymharol wedi cael eu hailddatgan er mwyn sicrhau cysondeb.
2 Adroddwyd am y wybodaeth sydd ar gael ar gyfer: : Nottingham, De Tyneside, Darlington, Abertawe, a Cheltenham..

O'i gymharu â'r llynedd, mae'r dŵr rydym wedi'i ddefnyddio a'i gost wedi aros fwy neu lai'n gyson oherwydd ein bod wedi parhau i weithredu ar raddfa gyson.

## Papur

| Paper | | 2015-16 | 2014-15[1] | 2013-14[1] | 2012-13[1] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth anariannol (tunnelli)** | Papur a ddefnyddiwyd | **31** | 31 | **37** | 52 |
| **Gwybodaeth ariannol (£000)** | Costau'r cyflenwad papur | **31** | 31 | **37** | 46 |

1 Rydym wedi parhau i wella ein system ar gyfer cipio a mesur ein hadroddiadau am gynaliadwyedd. Mae canlyniadau'r blynyddoedd cymharol wedi cael eu hailddatgan er mwyn sicrhau cysondeb
2 Adroddwyd am y wybodaeth sydd ar gael ar gyfer: Nottingham, De Tyneside, Darlington, Abertawe, a Cheltenham.

Mae'r papur rydym wedi'i ddefnyddio a'i gost o gymharu'r blynyddoedd wedi aros fwy neu lai'n gyson. Mae hyn yn arwain at normaleiddio ein defnydd. Rydym yn disgwyl gweld effaith lawn ein Hamcanion Strategol, sef symud at weithredu'n ddigidol ac yn ddi-bapur, yn crisialu'n raddol dros y pedair blynedd nesaf. Byddwn yn caffael 100% o'r papur y byddwn yn ei ddefnyddio ar gyfer argraffu yn ein swyddfa o bapur gwastraff wedi'i ailgylchu a bydd ein cyhoeddiadau allanol yn cael eu hargraffu ar bapur sydd ag o leiaf 75% ohono wedi'i ailgylchu.

### Camu ymlaen

Dyma'r drydedd flwyddyn inni gyhoeddi'r adroddiad Cynaliadwyedd hwn. Rydym yn gwella ein systemau a'n dulliau rheoli'n barhaus i gipio ein mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol yn llwyr ac yn gywir. Wrth i'n hadroddiadau wella, y nod nesaf fydd sefydlu ein llinellau sylfaen a'n meincnodau a'r targedau ein hunain.

O ran ein strategaeth cynaliadwyedd wrth inni gamu ymlaen, byddwn yn cydweithio'n agos â Thîm Datblygu Cynaliadwy'r Weinyddiaeth gyda'r nod o gyflawni Ymrwymiadau Gwyrddu Arfaethedig y Llywodraeth 2016-2020. Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i weithio i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, i wella ein trefniadau rheoli gwastraff drwy leihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu'n gyffredinol a chynyddu'r gyfran sy'n cael ei hailgylchu. Byddwn yn ceisio lleihau eto faint o ddŵr y byddwn yn ei ddefnyddio, gan brynu cynhyrchion a gwasanaethau mwy cynaliadwy ac effeithlon gyda'r nod o sicrhau'r gwerth tymor hir cyffredinol gorau i'r gymdeithas.

Yn benodol, byddwn yn dal i dargedu lleihau teithio fel rhan o'n busnes arferol drwy hybu ein dull digidol o weithio. Ar hynny, byddwn yn dal i weithio tuag at ymwneud mewn ffordd ddi-bapur â'n darparwyr ac yn fewnol lle bydd hynny'n bosibl.

# Sylwadau am reolaeth ariannol

Yn yr adran hon ceir sylwadau sy'n gefn i'r Datganiadau Ariannol a'n perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Datganiadau Ariannol ar dudalennau 52 i 83. Mae Nodyn 2 y Datganiadau Ariannol ar dudalen 65 yn manylu ynghylch costau gweithredu net pob un o'r adrannau isod ac mae nodiadau 3-6 yn rhoi manylion am y gwariant a'r incwm. Isod, rhestrir y symudiadau mwyaf, gan gymharu'r gwariant ar gymorth cyfreithiol fesul cynllun yn 2015-16 â'r gwariant yn 2014-15.

**Gwariant Net yr Asiantaeth £1.6b**
**(Gostyngiad o £27.2m)**

**Cynrychiolaeth Sifil *(Cynnydd o £37.9m)*:** Digwyddodd y cynnydd hwnd oherwydd bod nifer y tystysgrifau o dan y Ddeddf Plant Arbennig wedi cynyddu 10%. I wrthbwyso hyn, parhawyd i ostwng prisiau fesul cam drwy Ddiwygio Cymorth Cyfreithiol a Thrawsnewid Cymorth Cyfreithiol. Gwelwyd symudiad o £9m oherwydd y newid yng nghyfraddau'r disgownt a ddefnyddir gan Drysorlys EM ar gyfer dyled, ac i wrthbwyso hyn, gwelwyd gostyngiad yn sgil rhyddhad rhag y ddarpariaeth ar gyfer lleihau gwerth dyledion.

**Cymorth Cyfreithiol** *(Gostyngiad o £17.0m): Digwyddodd y gostyngiad hwn wrth i effeithiau Deddf LASPO 2012 barhau i ostwng lefelau'r gweithgarwch parhaus yn y maes hwn.*

**Cronfeydd** *(Cynnydd o £3.8m)* Cynyddodd y gwariant ar orchmynion i ddiffynyddion a ryddhawyd ac a oedd wedi talu am eu cynrychiolaeth gyfreithiol yn breifat.

**Troseddau Is *(Gostyngiad o £49.9m)*:** Gostyngiad yn nifer yr achosion a phris cyfartalog achosion yn sgil y ffioedd is a gyflwynwyd yn sgil Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol.

**Gweinyddu *(Cynnydd o £2.1m)*:** Digwyddodd y cynnydd hwn oherwydd y taliadau terfynu o dan Gynllun Ymadael yn Gynnar yn Wirfoddol a ddechreuodd yn 2015-16, gan ddisgwyl i'r staff ymadael ym mis Awst 2016.

**Troseddau Uwch *(Gostyngiad o £4.1m)*:** Gwariant wedi aros yn weddol isel o'i gymharu a'r llynedd.

## Eitemau sylweddol yn Natganiad yr Asiantaeth ynglŷn â'i Sefyllfa Ariannol:

| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill | Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill |
|---|---|
| Mae hyn ar gyfer gwaith sydd wedi'i gwblhau gan gyfreithwyr, bargyfreithwyr ac asiantaethau cynghori ond sydd heb ei filio eto. Amcangyfrifir gwerth y gwaith hwn sydd ar y gweill drwy ystyried nifer yr achosion yr adroddwyd eu bod wedi dechrau gan amcangyfrif y gweithgarwch sydd wedi bod ar yr achosion hyn drwy ddefnyddio proffiliau hanesyddol costau a hyd yr achosion ar gyfer pob cynllun cymorth cyfreithiol unigol. Mae'r rhan fwyaf o rwymedigaethau eraill yr Asiantaeth ar gyfer biliau a dderbyniwyd ond sydd heb eu prosesu eto, ac fe ymdrinnir â'r rhain fel symiau masnach taladwy, ac unrhyw waith na thalwyd amdano yr adroddir yn ei gylch yn yr hawliadau talu ar gyfrif, sy'n cael eu trin yn groniadau. | Mae'r rhain yn cynnwys arian sy'n ddyledus gan gleientiaid sydd wedi cael cymorth cyfreithiol â'r rhan fwyaf yn ddyledus o dan arwystl statudol. Bydd arwystlau statudol yn codi pan fydd cleientiaid sy'n cael cymorth cyfreithiol yn ennill neu'n cadw ased yn sgil y cymorth cyfreithiol a gânt. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r cleient ad-dalu cost y cymorth cyfreithiol. Bydd gan y cleient yr hawl i ohirio'r ad-daliad hwn ac, os bydd yn gwneud hyn, bydd yr Asiantaeth yn sicrhau'r ddyled drwy gofrestru arwystl ffurfiol dros yr ased dan sylw. Codir llog ar y ddyled hon ar gyfradd llog syml o 8% ac ni fydd ond rhaid ad-dalu'r ddyled honno pan werthir yr ased, er yr anogir cleientiaid i ad-dalu dyledion er mwyn osgoi gorfod talu llog. Bydd y dyledion hyn yn cael eu pennu drwy ddilyn proses tafoli'r achos sy'n ystyried cyfanswm y gwerth y gellir ei adennill ar gyfer y cleient ac wedyn yn cyfyngu'r swm adenilladwy ar sail y gost a ysgwyddir gan yr Asiantaeth.<br>Daw gweddill y balans symiau derbyniadwy o'r arian sy'n ddyledus gan amrywiol ddarparwyr cymorth cyfreithiol sydd wedi codi yn sgil adennill taliadau ar gyfrif mewn achosion sydd wedi'u setlo ac adennill gordaliadau. |

# Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol

## Y ffocws ar gyfer y flwyddyn nesaf 2016-17

Mae 2016-17 yn flwyddyn bwysig oherwydd bydd yn gosod y naws a'r cyfeiriad ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Ni fydd pwrpas craidd yr Asiantaeth sef darparu cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac yn effeithiol yn newid. Hyn sydd wrth wraidd popeth a wnawn ac, yn sail i'r cyfan, mae ein tri Amcan Strategol sydd wedi ein gwasanaethu'n dda dros y tair blynedd diwethaf. Bydd y rhain yn parhau yr un mor berthnasol wrth inni gamu ymlaen. Yn y dyfodol, bydd yr Asiantaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Parhau i ddarparu cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac yn effeithiol;
- gwella safon cynrychiolaeth i gleientiaid;
- cyfrannu at greu Asiantaeth glyfrach, symlach a mwy effeithlon.

**Yn gysylltiedig â'n tri Amcan Strategol, bydd ein gwaith yn 2016-17 yn canolbwyntio ar y canlynol:**

- Cwblhau ein rhaglenni diwygio presennol a'u tywys i'w pen draw a sefydlu'r rhaglenni gwaith newydd i gefnogi ein gweledigaeth i sbarduno arbedion effeithlonrwydd a symleiddio cymorth cyfreithiol;
- datblygu ein pobl a meithrin ein diwylliant;
- cydweithio â'n partneriaid ar draws y Weinyddiaeth Cyfiawnder i sicrhau arbedion effeithlonrwydd ar draws gwasanaethau cyflawni.

## Ac yn ystod y pedair blynedd nesaf byddwn yn gwneud hyn:

- Ceisio symleiddio cymorth cyfreithiol eto, cynyddu gweithio'n ddigidol a sbarduno rhagor o arbedion effeithlonrwydd drwy awtomeiddio ein prosesau mewnol;
- parhau i gomisiynu gwasanaethau gan sefydliadau y sicrhawyd eu hansawdd a gwneud penderfyniadau ariannu unigol yn annibynnol ar Weinidogion, yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi;
- parhau i dalu dros 90% o'n biliau o fewn mis a chymeradwyo'r ariannu ar gyfer pob achos ac eithrio'r rhai mwyaf cymhleth o fewn pythefnos a byddwn yn cydweithio'n agos â darparwyr cymorth cyfreithiol a chyrff cynrychioli i sicrhau bod ceisiadau a biliau'n gywir y tro cyntaf;
- datblygu ac adeiladu eto ar lwyddiant Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus;
- canolbwyntio ar ddatblygu'r sefydliad a pharhau i fuddsoddi yn ein pobl er mwyn inni allu gwireddu ein gweledigaeth, gan gynnwys sicrhau bod ein pobl wedi'u harfogi â'r wybodaeth gywir ac yn cael cymorth a chyfleoedd i ddatblygu;
- buddsoddi mewn meithrin cyd-ddiben a chyd-ddiwylliant ar gyfer yr Asiantaeth a pharhau i sicrhau bod hyn yn bwrw gwreiddiau;
- cefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y Weinyddiaeth Cyfiawnder, fel y'u nodir yn y Cynllun Adrannol, fel rhan o system Cyfiawnder Un Genedl a chyfrannu at arbedion effeithlonrwydd trawsadrannol fel aelod o'r Grŵp Gweithrediadau sydd newydd ei ffurfio;
- cydweithio'n agos â'n partneriaid yn y system cyfiawnder i wella'r ffordd mae'r system gyfiawnder yn gweithio drwyddi draw.

**Shaun McNally CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
(ers 1 Ebrill 2016)
30 Mehefin 2016

# Adroddiad am atebolrwydd

# Adroddiad am lywodraethu corfforaethol

## Rhagarweiniad

Pwrpas yr adroddiad llywodraethu Corfforaethol yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth yr Asiantaeth a sut mae'r trefniadau hyn wedi ei helpu i gyflawni ei hamcanion yn ystod 2015-16.

Mae ein Dogfen Fframwaith yn nodi'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd, ariannu, staffio a gweithredu a gellir ei gweld yn llawn yn GOV.UK

www.gov.uk/government/organisations/legal-aid-agency/about/our-governance#laa-board

A minnau'n Brif Weithredwr ac yn Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth, rwy'n gyfrifol am y ffordd y mae'n defnyddio adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau fel y'u rhestrir yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae Managing Public Money, a gyhoeddir gan Drysorlys EM hefyd yn rhestru cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu. A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n bersonol gyfrifol am ddiogelu'r cronfeydd cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt; am sicrhau priodoldeb a chysondeb wrth ymdrin â chronfeydd cyhoeddus; ac am weithrediadau a rheoli'r Asiantaeth o ddydd i ddydd. Yn ogystal â hyn, rhaid imi sicrhau bod yr Asiantaeth drwyddi draw'n cael ei chynnal yn unol â'r safonau, o ran llywodraethu, penderfynu a rheolaeth ariannol.

Mae fy adroddiad yn sôn am y trefniadau llywodraethu sydd ar waith i reoli'r hyn sy'n peryglu cyflawni amcanion a thargedau'r Asiantaeth fel y cytunwyd arnynt, ac yn ffordd effeithiol o oruchwylio a rheoli ei hadnoddau a'i hasedau. Mae'n cynnwys:

- Adroddiad y Cyfarwyddwyr;
- Datganiad am gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu
- Datganiad am lywodraethu

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfansoddiad Bwrdd yr Asiantaeth, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Tîm Gweithredol. Maent yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol yr Asiantaeth ac am fonitro'r perfformiad o'i gymharu ag amcanion y cytunwyd arnynt.

### Cyfarwyddwr yn datgan buddiant

Bydd gofyn i Aelodau Anweithredol y Bwrdd ddatgan unrhyw gyfarwyddiaeth a gwrthdaro rhwng buddiannau pan gânt eu penodi. Bydd gofyn hefyd i holl Aelodau Gweithredol y Bwrdd ddatgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau cyn dechrau pob cyfarfod. Ni chafwyd yr un datganiad yn ystod 2015-16.

### Digwyddiadau'n ymwneud â data personol

Ystyriwyd a oedd unrhyw ddigwyddiad yn cynnwys data personol a oedd mor ddifrifol nes y dylid adrodd yn ei gylch wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ni chafwyd digwyddiadau mor ddifrifol â hynny yn ystod y flwyddyn.

Mae'r datganiad am Lywodraethu ar dudalen 34 yn ystyried arferion sicrwydd gwybodaeth eraill ac arferion diogelu data yn yr Asiantaeth.

## Aelodau pwyllgorau

| Cyfansoddiad | Rhyw | Bwrdd yr Asiantaeth | | Tîm Rheoli Gweithredol | | Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodau Gweithredol y Bwrdd** | **G/B** | **Aelod** | **Gwadd** | **Aelod** | **Gwadd** | **Aelod** | **Gwadd** |
| Matthew Coats,[1] *Prif Weithredwr a Chadeirydd* | G | ✔ | | ✔ | | | ✔ |
| Hugh Barrett, *Cyfarwyddwr Comisiynu a Strategaeth* | G | ✔ | | ✔ | | | |
| Catherine Little,[1] *Cyfarwyddwr Cyllid a Digidol* | B | ✔ | | ✔ | | | ✔ |
| Shaun McNally CBE, *Cyfarwyddwr Rheoli Achosion* | G | ✔ | | ✔ | | | |
| Ruth Wayte, *Prif Gynghorydd Cyfreithiol yr Asiantaeth* | B | ✔ | | ✔ | | | |
| Aelodau Anweithredol y Bwrdd (AAB) | | | | | | | |
| John Grosvenor *(Cyllid)* | G | ✔ | | | | ✔ | |
| Andrew Lockley *(Cyfreithiol)* | G | ✔ | | | | ✔ | |
| Eric Gregory *(Masnachol)* | G | ✔ | | | | ✔ | |
| Eraill | | | | | | | |
| Pennaeth Digidol a TG | | | ✔ | ✔ | | | |
| Pennaeth Canolfan Gorfforaethol yr Asiantaeth | | | ✔ | ✔ | | | |
| Cyfarwyddwr Mynediad i Gyfiawnder y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Polisi | | | ✔ | | | | |
| Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyllid y Weinyddiaeth Cyfiawnder | | | ✔ | | | | |
| Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Weinyddiaeth Cyfiawnder | | | | ✔ | | | |
| Cynrychiolydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | | | | | | | ✔ |
| Cynrychiolydd Archwilio Mewnol | | | | | | | ✔ |

1 Ymadawodd Matthew Coats a Catherine Little â'u swyddi ar 31 Mawrth 2016. Ar 1 Ebrill 2016, penodwyd Shaun McNally yn Brif Weithredwr ac yn Gyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol a phenodwyd James McEwen yn Gyfarwyddwr Cyllid a Digidol. Parhaodd Matthew Coats yn gadeirydd Bwrdd yr Asiantaeth.

# Datganiad am gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol i baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddatganiad o'r cyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a bennir yn y Cyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon. Darperir y Cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa'r Asiantaeth ac o'i halldro adnoddau net, sut y defnyddiwyd ei hadnoddau, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, bydd gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y llywodraeth 2015-16 ac yn benodol:

- Cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a rhoi polisïau cyfrifyddu addas ar waith yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol sydd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y llywodraeth wedi'u dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyro o sylwedd yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw;
- mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n cadarnhau, cyn belled ag y gŵyr ef, nad oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr Asiantaeth yn ymwybodol ohonynt a'i fod wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'u cymryd i sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac i sicrhau bod archwilwyr yr Asiantaeth yn ymwybodol o'r wybodaeth honno;
- mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar y cyfan yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb personol dros yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r farn y mae angen ei llunio er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. .

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi dynodi Prif Weithredwr yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra yr arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdanynt, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, wedi'u rhestru yn Managing Public Money a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

# Datganiad am lywodraethu

Trosglwyddodd Matthew Coats rôl Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol i Shaun McNally ar 1 Ebrill 2016. Mae Shaun wedi bod gyda'r Asiantaeth er 2012 yn Gyfarwyddwr Rheoli Achosion. Mae Shaun wedi bod yn aelod hollbwysig o Fwrdd yr Asiantaeth a'r Tîm Gweithredol, gan wneud cyfraniad hanfodol wrth wneud penderfyniadau allweddol am faterion strategol a risgiau gweithredol yn ystod 2015-16.

**Rhagarweiniad**

A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu newydd i'r Asiantaeth, rwyf wedi gofyn am sicrwydd gan y cyn Brif Weithredwr, Bwrdd yr Asiantaeth a'r archwilwyr mewnol. Rwy'n gallu darparu'r sicrwydd sydd yn y datganiad am Lywodraethu ar sail fy mhroses ymsefydlu, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd â'r cyn Brif Weithredwr, Aelodau Anweithredol y Bwrdd, y Tîm Gweithredol a rhanddeiliaid allweddol yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac yn y system cyfiawnder troseddol ehangach.

Rwyf hefyd wedi ysgwyddo rôl Cyfarwyddwr Rheoli Achosion Cymorth Cyfreithiol, a roddwyd imi gan yr Arglwydd Ganghellor. Rwyf wedi cael sicrwydd pellach gan Brif Gynghorydd Cyfreithiol yr Asiantaeth am y cyngor a roddwyd yn ystod y flwyddyn ac am y gwaith a'r penderfyniadau y mae'r ddau banel sydd ar waith wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn i adolygu'n annibynnol benderfyniadau'r Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol ynglŷn ag ariannu achosion unigol. Mae rhagor o fanylion am sut y cyflawnwyd y swyddogaethau hyn yn fy adroddiad llawn.

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

Roedd adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am weithredu'r diwygiadau i gymorth cyfreithiol sifil drwy Ddeddf LASPO 2012 yn canolbwyntio ar sylfaen dystiolaeth y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer cyflwyno'r diwygiadau a'r angen parhaus i sicrhau bod gwasanaeth cynaliadwy o safon ar gael i bobl sydd â gwir angen cymorth cyfreithiol. Mae'r Asiantaeth bellach wedi rhoi ei ddau argymhelliad penodol ar waith, fel a ganlyn:

- Rydym wedi parhau i gynnal adolygiadau rheolaidd ar gapasiti ac adolygiadau ad hoc eraill i sicrhau bod digon o ddarpariaeth yng Nghymru a Lloegr. Yn sgil hyn, mae rhagor o weithgarwch tendro wedi'i gynnal i sicrhau nad oes dim bylchau yn y ddarpariaeth;
- Rydym yn parhau i fonitro'n frwd ansawdd y ddarpariaeth a'r llwybrau a ddilynir i'w hasesu fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i sicrhau gwasanaeth o safon. Byddwn yn rheoli contractau o ddydd i ddydd drwy ddefnyddio ystod o ymyriadau'n seiliedig ar risg, megis adolygu ffeiliau a gwiriadau goruchwyliaeth ac mae gennym broses sicrhau annibynnol (adolygiad gan gymheiriaid).

**Y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder**

Mae'r Asiantaeth yn cynnal trafodaethau parhaus â'r Pwyllgor Dethol ar y cyd â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder fel rhan o'n diweddariadau rheolaidd ar Amcangyfrifon Cyflenwi. Cyhoeddwyd ymateb y Weinyddiaeth i effaith y newidiadau i gymorth cyfreithiol o dan ran 1 o Ddeddf Laspo 2012 ym mis Gorffennaf 2015. Rydym wedi cwblhau'r camau a ganlyn er mwyn ymateb i'r argymhellion:

- Arweiniodd y tendr cyfryngu yn ystod 2015-16 at ddyfarnu contractau i 37 o ddarparwyr ychwanegol i ddarparu gwasanaethau ar draws 171 o leoliadau ychwanegol. Mae'r lleoliadau hyn wedi'u gwasgaru ar draws pob ardal o'r wlad.
- rydym yn dal i fonitro pa mor hawdd yw hi i bobl gael gafael ar wasanaethau cyfryngu yn ogystal â pha mor gynaliadwy yw'r contractau unigol a ddyfernir lle mae swmp y gwaith yn fach;
- byddwn yn adolygu capasiti'r cyflenwad yn rheolaidd. Mae'r adolygiadau hyn yn parhau i ddangos bod digon o gapasiti ym mhob categori o gyfraith sifil yn y rhan fwyaf o'r meysydd caffael;
- rhoddwyd proses ddiwygiedig ar waith i reoli achosion a'r tîm Ariannu Achosion Eithriadol wrth ymdrin ag achosion o'r fath;
- byddwn yn cyhoeddi bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol bob tri mis, sy'n cynnwys ffigurau chwarterol manwl am geisiadau amg cyfreithiol a'u caniatáu, cymorth cyfreithiol mewn achosion teulu cyfraith breifat ar sail tystiolaeth o drais yn y cartref neu gam-drin plant;
- rydym yn parhau i gynnal deialog barhaus â'n darparwyr a byddwn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r cyrff cynrychioli perthnasol i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau diweddar ac yn cael y cyfle i drafod unrhyw faterion wrth iddynt godi

**Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Gyfraith Estraddodi**

Cyhoeddwyd ymateb y llywodraeth i adroddiad y pwyllgor, dan y teitl 'Extradition Law and Practice' ym mis Gorffennaf 2015. Ystyriwyd yr argymhellion ynghylch cyngor cyfreithiol, cymorth cyfreithiol a thystiolaeth arbenigol a'u herio ar y sail na fyddent yn arwain at lawer o fudd o ran costau o'u cymharu â'r drefn bresennol. Er enghraifft, mae rhoi eFfurflenni ar waith eisoes yn sicrhau bod penderfyniadau'n fwy prydlon.

**Yr Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd**

Mae gan yr Asiantaeth weithdrefn gwynion ddwy haen ar waith sy'n cynnig llwybr i adolygu cwynion yn wrthrychol cyn i'r achwynydd benderfynu a ddylid cyfeirio eu mater at yr Ombwdsmon neu beidio drwy gyfrwng ei Aelod Seneddol lleol. Bydd yr Asiantaeth yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'n swyddog cyswllt yng ngwasanaeth yr Ombwdsmon er mwyn:

- Trafod y cynnydd ar achosion penodol;;
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau e.e. newidiadau mewn polisi a'r effeithiau posibl ar yr Ombwdsmon;
- sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu rhannu ddwy ffordd a chynnig adborth adeiladol.

Mae'r Asiantaeth hefyd wedi sefydlu cyfarfodydd rheolaidd â swyddog cyswllt yr Ombwdsmon, Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a GLlTEM am fod y themâu a'r cysylltiadau gweithio'n debyg.

Yn ystod 2015-16, cafodd yr Ombwdsmon 17 o gwynion newydd. Cafwyd penderfyniad ynghylch 6 o achosion parhaus yn ystod y flwyddyn (gall penderfyniadau ynghylch achosion rychwantu sawl blwyddyn ac nid oes unrhyw gydberthynas uniongyrchol rhwng cwynion sy'n codi neu'n cael eu cwblhau ym mhob blwyddyn ariannol), cyfiawnhawyd 3 a chadarnhawyd 3 yn rhannol. Pan gwblheir ymchwiliad, bydd yr Asiantaeth yn cymryd y camau angenrheidiol neu'n dilyn argymhellion yr Ombwdsmon. Gall hyn lywio newidiadau i brosesau a ffyrdd o weithio sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

## Strwythur Pwyllgorau

**Bwrdd yr Asiantaeth**
Mae'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ddarparu sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

**Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**
Mae'n cefnogi'r Prif Weithredwr gyda'i gyfrifoldebau am faterion sy'n berthnasol i archwilio mewnol ac allanol, rheoli risg, rheolaeth fewnol a chyfrifon blynyddol yr Asiantaeth.

**Y Tîm Gweithredol**
Mae'r Tîm Gweithredol yn adrodd i'r Prif Weithredwr ac yn gofalu am reoli'r Asiantaeth o ddydd i ddydd; am oruchwylio'r cynllunio a'r perfformiad gweithredol ac ariannol, y bwrdd newid chwarterol a rheoli risg.

**Y Grŵp Buddsoddi**
Mae'r Grŵp Buddsoddi'n adrodd i'r Tîm Gweithredol ac mae'n gyfrifol am strategaeth buddsoddi cyfalaf yr Asiantaeth, yn adolygu achosion busnes ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â chymeradwyaethau Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EM.

**Y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch**
Mae'n cefnogi'r Prif Weithredwr yn ei gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac ati a sicrhau bod yr Asiantaeth yn lle diogel ac iach i weithio..

## Hyd a lled gwasanaeth a pherfformiad y pwyllgor

| Presenoldeb | Bwrdd yr Asiantaeth[2] | Pwyllgor Archwilio a Arch a SR[2] |
|---|---|---|
| **Aelodau Gweithredol y Bwrdd** | | |
| Matthew Coats, Prif Weithredwr a Chadeirydd[1] | 10 allan o 10 | |
| Hugh Barrett, Cyfarwyddwr Comisiynu a Strategaeth | 10 allan o 10 | |
| Catherine Little, Cyfarwyddwr Cyllid a Digidol[1] | 10 allan o 10 | |
| Ruth Wayte, Prif Gynghorydd Cyfreithiol yr Asiantaeth | 10 allan o 10 | |
| Shaun McNally CBE, Cyfarwyddwr Rheoli Achosion | 8 allan o 10 | |
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | | |
| John Grosvenor (Cyllid) | 6 allan o 10 | 4 allan o 4 |
| Andrew Lockley (Cyfreithiol) | 10 allan o 10 | 4 allan o 4 |
| Eric Gregory (Masnachol) | 10 allan o 10 | 4 allan o 4 |

1 Matthew Coats and Catherine Little left their posts on 31 March 2016. On 1 April 2016, Shaun McNally was appointed Chief Executive and Director of Legal Aid Casework and James McEwen was appointed Director of Finance and Digital. Matthew Coats remained as the Chair of the LAA Board.

2 The Board met ten times throughout the year, as well as an additional two strategy days. The ARAC met four times during the year with one additional extraordinary meeting to review and sign the 2014-15 Annual Report and Accounts.

Mae Bwrdd yr Asiantaeth, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Tîm Gweithredol yn fy helpu i bennu cyfeiriad strategol yr Asiantaeth. Mae'r Pwyllgor Buddsoddi a gwaith Swyddfa Ganolog y Portffolio Newid yn helpu'r Tîm Gweithredol wrth iddynt wneud penderfyniadau. Hefyd, cyfarfu'r Tîm Gweithredol bob chwarter i graffu ar gyflawni rhaglenni ac allbynnau. Disgrifir gwaith y pwyllgorau hyn isod.

**Bwrdd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**

Mae Bwrdd yr Asiantaeth yn dal i'm cefnogi wrth imi gyflawni fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu. Maent wedi diffinio cyfeiriad strategol yr Asiantaeth ac wedi herio effeithiolrwydd perfformiad yr Asiantaeth a'r hyn y mae wedi'i gyflawni ystod y flwyddyn.

Mae Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn cynnig gwybodaeth arbenigol ac arbenigedd yn y sectorau ariannol, masnachol a chyfreithiol er mwyn helpu'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswyddau yn y meysydd hyn sy'n flaenoriaeth. Ailbenodwyd pob un o Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn 2016-17 am gyfnod o dair blynedd, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ynglŷn â gwneud a rheoli penodiadau cyhoeddus.

Cyfarfu'r Bwrdd ddeg gwaith yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd dau ddiwrnod strategaeth ychwanegol hefyd a oedd yn canolbwyntio ar y strategaeth adnoddau dynol a'r strategaeth ddigidol yn y dyfodol, yn ogystal â materion cyfoes megis Trawsnewid y Gweithle, cynllunio'r gweithlu a'r adolygiad o wariant. Roedd y sesiynau hefyd yn cynnwys trafodaeth sy'n ystyried strategaeth yr Asiantaeth ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys y newidiadau ehangach yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Dyma rai o'r eitemau sefydlog sydd ar yr agenda fisol:

- Y Pecyn cyllid, perfformiad a risg: gwybodaeth reoli am dargedau perfformiad, risg a chyfleoedd;
- Cyflawni'r rhaglen newid; tyrchu'n ddwfn i Drawsnewid Cymorth Cyfreithiol, y Rhaglen Cyflawni Integredig, y Rhaglen Newid Troseddol a'r Strategaeth Sianelau.

Dyma rai o'r meysydd gweithredu allweddol a drafodwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cynllunio strategol: adolygiad o wariant, cynllunio busnes, stiwardiaeth, defnyddio Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus, a rheoli risg;
- pobl a diwylliant: canlyniadau'r arolwg ymhlith ein pobl, diwygio diwylliannol, bwrdd stori'r Asiantaeth, Trawsnewid y Gweithle, y wybodaeth ddiweddaraf am y gweithlu;
- technoleg gwybodaeth a chyfathrebu: gweithio hyblyg, strategaeth gyfathrebu, sefydlogrwydd TG, glanhau technoleg a'r System Rheoli Cleientiaid a Chostau.

Aeth y Bwrdd ati i asesu ei berfformiad ei hun ym mis Mawrth 2016. Roedd yr adolygiad hwn yn cadarnhau bod y Bwrdd yn dal i weithredu'n effeithiol, gan gynnig eglurdeb strategol sy'n cysylltu'n uniongyrchol â chynllun busnes yr Asiantaeth a'i blaenoriaethau strategol. Mae'r Bwrdd yn dal i fonitro perfformiad a risg ac yn gwneud ei waith archwilio'n dda, gan herio mewn ffordd onest ac adeiladol. Bydd y Bwrdd yn cynllunio gweithredu ar sail canlyniadau'r hunanasesiad, gan gynnwys blaengynllunio a sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosibl i gynyddu'r ymgysylltu anffurfiol rhwng aelodau'r Bwrdd.

**Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

Mae'r Pwyllgor hwn yn cefnogi'r Swyddog Cyfrifyddu a Bwrdd yr Asiantaeth yn eu cyfrifoldebau dros faterion sy'n berthnasol i archwilio mewnol ac allanol, llywodraethu corfforaethol, polisïau gwrth-dwyll, rheolaeth fewnol a rheoli risg, a Chyfrifon Blynyddol yr Asiantaeth.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu, y Cyfarwyddwr Cyllid a Digidol, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, y Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd, Pennaeth Archwilio Mewnol y Weinyddiaeth Cyfiawnder a chynrychiolwyr y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd un cyfarfod ychwanegol eithriadol i adolygu a llofnodi'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol.

Roedd gan y Pwyllgor rôl allweddol yn craffu ar ymchwiliad gwrth-dwyll gan dîm Sicrwydd yr Asiantaeth a bu'n ei gynorthwyo yn yr ymchwiliad hwnnw. Cyfeiriwyd yr achos at yr Heddlu Metropolitan ym mis Hydref 2015 ac mae'r ymchwiliad sifil a throseddol i'r mater hwn yn mynd rhagddo. Wrth ymateb i'r ymchwiliad hwn, comisiynodd Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth adolygiad mewnol i asesu pa mor ddigonol oedd fframwaith rheoli'r Asiantaeth gyda golwg ar daliadau cymorth cyfreithiol. Casgliad yr adolygiad hwn oedd nad oedd tystiolaeth bod y twyll honedig yn dangos gwendid systemig yn amgylchedd rheoli'r Asiantaeth, nac ychwaith yn awgrymu ei bod yn agored i risg ehangach o dwyll. Codwyd nifer o argymhellion a'u rhoi ar waith fel rhan o'r adolygiad hwn. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr Asiantaeth wedi ymateb yn drwyadl i'r enghraifft o dwyll honedig a'i bod wedi cymryd camau pellach i gryfhau ei dull o reoli risg o du darparwyr.

Canolbwyntiodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar y meysydd allweddol a ganlyn o ran risg a sicrwydd:

- Yr hierarchiaeth risg a sicrwydd gyffredinol, gan gynnwys sicrwydd a throsglwyddo materion i lefel uwch rhwng yr Asiantaeth, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a Phwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Weinyddiaeth Cyfiawnder
- gweithgarwch gwrth-dwyll ac ymchwiliadau;
- canlyniad adolygiad y Sefydliad Siartredig - Cyllid a Chyfrifyddiaeth Cyhoeddus o'r trefniadau rheolaeth ariannol;
- monitro'r cynnydd a'r argymhellion yn sgil adroddiadau archwilio mewnol;
- y cynnydd o'i gymharu â chynllun gweithredu'r Asiantaeth ar gyfer rheoli dyledion;
- rheoli'r risg o wallau a chamau i wella'r trefniadau i reoli prosesu a thalu biliau sifil yn gywir;
- trefniadau rheoli ar gyfer diogelwch gwybodaeth a pharhad y busnes;
- cynhyrchu cyfrifon: manylion, amseru a chamau gwella.

Cwblhaodd y Pwyllgor ei hunanasesiad blynyddol o'i effeithiolrwydd ym mis Mawrth 2016 gan archwilio ffocws ei waith, ei gysylltiadau â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, swyddogaeth a chyfraniad pobl eraill a oedd yn bresennol ac ansawdd y sicrwydd rheoli a ddarparwyd drwy gydol y flwyddyn. Roedd adborth aelodau'r pwyllgor a'r sawl a oedd yn bresennol yn rheolaidd yn cadarnhau eu bod wedi cyflawni'r camau y cytunwyd arnynt yn yr adolygiad blynyddol blaenorol ac yn cydnabod y gwelliannau o ran rheoli risg a'r cydweithredu rhwng yr adran archwilio mewnol archwilio allanol a'r gyfarwyddiaeth cyllid a digidol. Roedd yr adolygiad hefyd yn fodd o lywio ffocws y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn nesaf, megis parhau i oruchwylio fframwaith rheoli risg yr Asiantaeth a'r archwaeth a'r wybodaeth am raglen drawsnewid ehangach y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer 2016-17 ac wedi hynny. Casgliad y pwyllgor oedd ei fod yn cynnal trafodaethau iach ac agored, ei fod yn gallu cael gafael ar sicrwydd rheoli o safon, a bod ganddo'r amrywiaeth briodol o brofiad i gyflawni ei rolau'n effeithiol.

**Y Tîm Gweithredol**

Bydd y Tîm Gweithredol yn adrodd i'r Prif Weithredwr ac yn gofalu am reolaeth feunyddiol yr Asiantaeth. Bydd y Tîm Gweithredol yn cyfarfod bob wythnos.

Dyma'i brif gyfrifoldebau:

- Datblygu a gwireddu Amcanion Strategol yr Asiantaeth, ei gwerthoedd a'i diwylliant, gan sicrhau bod cynlluniau cyflawni effeithiol ar waith i wneud hynny;
- rheoli perfformiad ariannol a gweithredol yr Asiantaeth gan gynnwys asesu perfformiad misol ac adroddiadau ariannol, adolygu perfformiad ar sail Amcanion Strategol yr Asiantaeth;

- hyrwyddo gwaith agored ac atebol gan yr Asiantaeth.

Yn ogystal â hynny, bydd y Tim Gweithredol, ynghyd â'n Haelodau Anweithredol (arbenigedd masnachol) yn cyfarfod bob chwarter fel Bwrdd Newid yr Asiantaeth er mwyn goruchwylio rhaglenni newid y sefydliad sy'n cynnwys Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol, y Rhaglen Cyflawni Integredig a'r Rhaglen Newid Troseddol. Fe'u cefnogir yn y swyddogaeth hon gan Swyddfa Ganolog y Portffolio Newid a sefydlwyd yn ddiweddar sy'n ei alluogi i reoli ei bortffolio'n effeithlon ac yn effeithiol drwy:

- Sicrhau bod timau'n gallu manteisio ar yr adnoddau a'r arbenigedd iawn;
- hwyluso ymagwedd gydweithredol at waith ar draws timau prosiect;
- darparu sicrwydd bod risgiau, rhyngddibyniaethau a thargedau ariannol a chyflawni'n cael eu rheoli a'u cyflawni.

**Y Grŵp Buddsoddi**

Mae Grŵp Buddsoddi'r Asiantaeth yn gyfrifol am strategaeth buddsoddid cyfalaf yr Asiantaeth, yn datblygu'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer y rhaglen gyfalaf ac yn negodi'r dyraniad cyfalaf blynyddol. Cyflwynir gofyniad cyfalaf y strategaeth a'r rhaglen i'r Tîm Gweithredol iddo'i gymeradwyo'n derfynol.

Bydd y Grŵp Buddsoddi'n adolygu achosion busnes a briffiau prosiect ar gyfer cynigion unigol gan ddarparu fforwm ar gyfer herio, gan sicrhau eu bod yn gyson a'r strategaeth a bod yr Asiantaeth yn gallu eu fforddio. Bydd y Grŵp Buddsoddi'n sicrhau bod y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EM wedi rhoi unrhyw gymeradwyaeth berthnasol cyn dechrau'r gwaith. Bydd y Grŵp Buddsoddi'n monitro gwariant cyfalaf a digidol, ac unrhyw wariant refeniw cysylltiedig, ar gyfer cynlluniau sydd wrthi'n cael eu cyflawni, gan nodi'r gwersi a ddysgwyd a'r arferion gorau er mwyn llywio cynlluniau yn y dyfodol.

Bydd y Grŵp Buddsoddi'n cyfarfod bob mis. Mae'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Digidol a bydd cynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth yn yr Asiantaeth yn dod i'r cyfarfodydd. Gwahoddir Rheolwyr Prosiectau a pherchnogion busnes i'r cyfarfodydd i gyflwyno'u hachosion busnes a'u briffiau prosiect yn ôl y gofyn ac ymateb i gwestiynau yn eu cylch.

## Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Cenedlaethol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Mae Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Cenedlaethol yr Asiantaeth wedi cyfarfod bob chwarter drwy gydol y flwyddyn. Cadeirydd y Pwyllgor yw Deilydd y Ddyletswydd Iechyd a Diogelwch (y Cyfarwyddwr Rheoli Achosion) ac ymhlith ei aelodau mae: Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yr Asiantaeth, cynrychiolydd Arweinwyr Safle, cynrychiolwyr Undebau Llafur, uwch gynrychiolydd o bob cyfarwyddiaeth, Pennaeth tîm Tân, Iechyd a Diogelwch y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac Uwch Swyddog Iechyd a Diogelwch GLlTEM. Ffocws y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Cenedlaethol yw adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol Iechyd a Diogelwch a thrafod dulliau rheoli newydd; cytuno ar ofynion hyfforddi, ac adolygu a hyrwyddo'r polisi Iechyd a Diogelwch drwy'r yr Asiantaeth. Bydd y Cyfarwyddwr Rheoli Achosion a Chynghorydd Iechyd a Diogelwch yr Asiantaeth hefyd yn aelodau o Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i rannu arferion da a rheoli risgiau Iechyd a Diogelwch ehangach yr adran.

## Cydymffurfio â Chod Arferion Da Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Adrannau'r Llywodraeth

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod yr Asiantaeth wedi cydymffurfio ag egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol adrannau'r llywodraeth ganolog: Cod Arferion Da, i'r graddau ei fod yn berthnasol i asiantaeth weithredol. Mae un eithriad wedi bod; nid oes gan yr Asiantaeth Bwyllgor Enwebu a Llywodraethu penodol sy'n gyfrifol am oruchwylio rheoli doniau, cynllunio ar gyfer olyniaeth, cynlluniau cymell a strwythurau llywodraethu. Serch hynny, mae cylch gwaith Bwrdd yr Asiantaeth a'r Tîm Gweithredol yn cynnwys y cyfrifoldebau hyn.

Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn darparu ar gyfer yr Asiantaeth yr holl waith ymchwil sydd ei

angen arni i lywio datblygu polisïau a gwerthuso rhaglenni. Mae hyn yn golygu nad oes gofyn i'r Asiantaeth fod yn berchen ar unrhyw sicrwydd ansawdd ar gyfer modelau dadansoddi sy'n hanfodol ar gyfer y busnes.

**Effeithiolrwydd dulliau rheoli mewnol**

Mae'r Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, y Pwyllgor iechyd Diogelwch, y Tîm Gweithredol a'i is-bwyllgorau yn fy nghynorthwyo i stiwardio adnoddau'r Asiantaeth a rheoli ei hasedau. Byddaf yn cael sicrwydd parhaus ac uniongyrchol gan fy Nghyfarwyddwyr ynghylch y cyflawni gweithredol a'i reoli. Mae'r Tîm Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r adran Archwilio Mewnol wedi adolygu a chyfrannu at y datganiad Llywodraethu hwn.

Bwriedir i'r system reoli mewnol reoli risg hyd at lefel dderbyniol yn hytrach na dileu pob risg gyda golwg ar gyflawni ei pholisïau, ei nodau a'i hamcanion. Ni all felly ond cynnig sicrwydd rhesymol ynghylch ei effeithiolrwydd, yn hytrach na sicrwydd absoliwt.

**Rheoli risg**

Mae fframwaith rheoli risg yr Asiantaeth yn elfen hanfodol o'i threfniadau llywodraethu a rheoli mewnol. Mae rheoli risg wedi'i hintegreiddio ar draws yr Asiantaeth ac mae llinellau trosglwyddo clir i lefel uwch rhwng unedau busnes, llywodraethu rhaglenni, y Tim Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio  a Sicrhau Risg a Phwyllgor Gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Mae'r Tîm Gweithredol yn gyfrifol am adnabod, asesu a rheoli risgiau a all effeithio ar gyflawni Amcanion Strategol yr Asiantaeth. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn tyrchu'n ddwfn i adroddiadau am risg a'r dulliau o'u rheoli yn ei gyfarfodydd.

Ail-lansiwyd ein dull o reoli risg ddechrau 2015-16 ac roedd yn cynnwys gweithdai risg gyda'r Tîm Gweithredol a'r Dirprwy Gyfarwyddwyr. Mae Tîm Sicrwydd yr Asiantaeth yn gyfrifol am lywodraethu polisïau rheoli risg yr Asiantaeth, gan gynnwys meysydd risg arbenigol gan gynnwys twyll, parhad y busnes, Iechyd a Diogelwch a gwarchodaeth ac maent yn cefnogi cyflawni dull rheoli risg gorfforaethol effeithiol ac integredig.

Mae ein dull o reoli risg wedi rhoi sicrwydd imi fod risgiau'n cael eu nodi'n brydlon ac yn cael eu trosglwyddo i lefel uwch ar y gofrestr risg gorfforaethol. Rhai o'r prif risgiau cyflawni a reolir yn ystod y flwyddyn yw lleihau'r tebygolrwydd o wallau yn y gronfa cymorth cyfreithiol a lleihau effaith bosibl polisïau ehangach y llywodraeth megis y prawf preswylio a chredyd cynhwysol drwy flaengynllunio strategol.

Dyma rai o'r risgiau sylweddol a rhai y sylwyd arnynt o'r newydd a reolwyd gennym yn ystod y flwyddyn:

- Y risg y gallai tarfiadau TG amharu ar ein perfformiad gweithredol. Gan fod bron 80% o drafodion yr Asiantaeth bellach ar lein, gall y tarfu hwn ym maes TG effeithio ar gyflwyno a  phrosesu ceisiadau a thaliadau am gymorth cyfreithiol; gan effeithio ar ysbryd y staff a'r cysylltiadau â rhanddeiliaid. Cymerwyd nifer o gamau lliniaru i sefydlogi ein systemau a chynnal ein gwasanaeth i ddefnyddwyr mewnol ac allanol. Rhai o'r prif gamau oedd buddsoddi mewn seilwaith, sefydlu canolfan rheoli digwyddiadau/cymorth i ddefnyddwyr i gwtogi'r amser datrys a datblygu gwaith traws-gyflenwydd; buddsoddi yn ein prosiect glanhau tech a lwyddodd i ostwng cyfnodau segur 50% drwy wella'r gwendidau yn systemau'r Asiantaeth a chyfathrebu'n uniongyrchol yn rheolaidd â staff (mewnrwyd ac e-bost) ynghylch statws y datrysiadau ym maes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'r cynlluniau buddsoddi gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Digidol;
- yn ystod 2015-16, cafwyd problemau gyda phroses y rhediad talu. Mae gwaith ar y gweill gyda darparwyr TG yr Asiantaeth i wneud y system yn fwy cydnerth a hefyd fe gynhelir adolygiad llawn o'r prosesau a'r dulliau i reoli'r rhediad taliadau er mwyn gwella'r amgylchedd rheoli'n gyffredinol;

- y risg bod darparwyr yn tarfu ar weithrediad y system cyfiawnder troseddol am eu bod yn gwrthwynebu diwygiadau. Gwireddwyd y risg hon yn haf 2015 pan benderfynodd nifer sylweddol o gyfreithwyr a bargyfreithwyr gymryd camau a darfodd ar y system. Llwyddodd yr Asiantaeth i ymdrin â'r rhan fwyaf o'r achosion drwy gydweithio â'r llysoedd a'r heddluoedd, gan sicrhau parhad gwasanaeth a oedd bron yn normal. Er mwyn annog rhagor o effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau cyfreitha cymorth cyfreithiol troseddol, penderfynodd y llywodraeth glymblaid fabwysiadu system a elwir yn 'gontractio deuol'. O dan y drefn contractio deuol, byddai dau fath o gontract yn cael eu dyfarnu i ddarparwyr cymorth cyfreithiol troseddol a elwir yn 'gontract ei gleient ei hun' ac yn gontract 'dyletswydd'. Tendrwyd yn llwyddiannus ar gyfer y contractau 'cleient ei hun' yn 2014, a thendrwyd y contractau 'dyletswydd' yn ystod 2015. Serch hynny, cafwyd dau ddatblygiad o bwys ar ôl dechrau'r tendr. Yn gyntaf, diolch i arbedion mewn mannau eraill yn yr adran, rhoddodd Trysorlys EM setliad i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a oedd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd iddi o ran dyrannu arian ar gyfer cymorth cyfreithiol. Yn ail, daeth yn amlwg ar ôl codi heriau cyfreithiol yn erbyn y broses dendro, y byddai problemau wedi bod wrth fwrw ymlaen fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Ym mis Ionawr 2016, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd yn y farchnad, penderfynodd Gweinidogion beidio â bwrw ymlaen i gyflwyno'r system contractio deuol a gohiriwyd yr ail ostyngiad mewn ffioedd ar gyfer cyfreithwyr troseddol am gyfnod o 12 mis o 1 Ebrill 2016, a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2015. Roedd hyn yn her i weithredu'r Asiantaeth ac ystyried faint o waith a oedd wedi'i wneud eisoes wrth baratoi ar gyfer y contractau newydd. Serch hynny, ymatebodd yr Asiantaeth drwy ddyfarnu contractau wrth gefn er mwyn sicrhau cyflenwad parhaus o wasanaethau cymorth cyfreithiol nes i gontractau ddod i rym yn eu lle;

- y risg bod heriau cyfreithiol i benderfyniadau'r Asiantaeth yn effeithio ar ei henw da a'i chyflawni. Mae ein penderfyniadau'n dal i gael eu herio o dan Ddeddf LASPO 2012 a rhoi ein rhaglen Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol ar waith. Er mwyn rheoli a chadw effaith y risg hon o dan reolaeth, rydym wedi cydweithio'n agos â'n cydweithwyr ym maes polisi yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder i sicrhau bod cynlluniau wrth gefn yn cael eu hystyried ac ar waith, os digwydd inni wynebu her lwyddiannus. Dyma rai o'r camau ataliol sydd ar gael inni:
  - cydweithio â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y Grŵp Strategaeth Cyfreitha ar y Cyd i gytuno ar sut orau mae cynnal achosion i sicrhau cyn lleied o risg ag y bo modd;
  - goruchwyliaeth gyfreithiol a chyngor gan gwnsler arweiniol (yn ôl y gofyn) a Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth;
  - mewnbwn cyfreithiol priodol i benderfyniadau'r Asiantaeth, craffu gwell ar benderfyniadau uchel eu proffil/o ddiddordeb cyhoeddus.

## Y gyfradd wallau

Mae cymhlethdod y ddarpariaeth cymorth cyfreithiol yn golygu bod gofyn inni graffu'n barhaus ar y risg gynhenid o wallau yn y gronfa cymorth cyfreithiol yn sgil asesiadau anghywir neu daliadau anghywir, gan reoli'r risg honno fel rhan o'n trefniadau stiwardio. Mae ein prosesau ymgeisio a thalu wedi bod yn destun newid parhaus yn sgil trawsnewid cymorth cyfreithiol ac ysgwyddo meysydd gwaith newydd. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar leihau gwallau mewn ffordd sefydlog a chynaliadwy drwy gydweithio'n agos â'n darparwyr, rheolwyr contractau, rheolwyr achosion, cydweithwyr cyllid a digidol i adnabod a datrys yr achosion sydd wrth wraidd problemau a chryfhau'r dulliau rheoli mewnol a chydymffurfio'r darparwyr. Byddwn hefyd yn adolygu ac yn adennill taliadau afreolaidd gan gleientiaid a darparwyr. Dyma rai o'r canfyddiadau a'r camau cywiro a gymerwyd yn ystod y flwyddyn:

- Mwy o wallau ym maes Cynrychiolaeth Sifil yn ystod chwarter cyntaf 2015-16, gan ein hysgogi i gyflwyno ystod o gamau lliniaru gan gynnwys rhagor o archwilio, gwell trefniadau

rheoli ac addysgu darparwyr. Oherwydd, hyn gwelwyd y gyfradd wallau'n gostwng bob mis ers mis Gorffennaf 2015;

- cynnydd yn y gyfradd wallau grynswth ym maes Troseddau Is o 1.5% yn 2014-15 i 2% yn 2015-16. Ni ddigwyddodd y cynnydd hwn tan yn hwyr yn 2015-16 felly ni chaiff ein camau lliniaru effaith tan 2016-17. Rhai o'r camau lliniaru a gymerwyd oedd rhagor o waith archwilio ar ddarparwyr a rhagor o weithgarwch ym maes adennill. Hefyd, mae'r Asiantaeth yn gweithio gyda darparwyr a chyrff cynrychioli i sicrhau bod canllawiau ar atal gwallau cyffredin yn cael eu pwysleisio wrth bob parti perthnasol;
- mae llai o wallau wedi bod ym maes Cymhwysedd ac rydym yn dal i weld dim gwallau net ym maes Troseddau Uwch a Help Cyfreithiol.

Yn 2015-16, amcangyfrifwyd mai'r gyfradd wallau grynswth oedd £19.0m (2014-15: £19.3m). Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar adennill gordaliadau cymorth cyfreithiol sydd wedi helpu i leihau ein gwallau crynswth y Safle net yn 2015-16 oedd £12.9m (0.8% o'r gwariant). Oherwydd y materion a esboniwyd uchod, mae hyn yn gynnydd bach ar y gwallau net yn 2014-15 sef £12.3m (0.7% o'r gwariant).

Er bod gofyn inni ganolbwyntio'n sylw ar y cynnydd a nodir uchod, mae'r Asiantaeth yn hyderus y bydd y camau stiwardio sydd eisoes ar waith a'r rheini sydd yn yr arfaeth yn golygu y bydd llai o wallau yn y cyfnod nesaf.

### Atal twyll

Yn 2015-16, parhaodd yr Asiantaeth i roi ei dull seiliedig ar risg ar waith er mwyn atal, adnabod ac ymchwilio i amheuon o dwyll. Rydym yn cydweithio'n agos â Grŵp Gwrth-dwyll a Datblygu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, y Cynllun Twyll Cenedlaethol a Swyddfa'r Cabinet gyda golwg ar ystod o gamau canfod ac atal twyll.

Rydym yn wir o ddifrif ynghylch rheoli cronfeydd cyhoeddus yn drwyadl ac mae Bwrdd yr Asiantaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn mynd ati'n frwd i frwydro yn erbyn twyll sylweddol.

Adolygir ein polisi twyll a'n strategaeth wrth-dwyll bob blwyddyn ac adroddir bob mis am y cynllun gweithredu ar dwyll a gweithgarwch gwrth-dwyll.

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o dwyll ymhlith ein pobl a'n rhanddeiliaid drwy ddefnyddio cyflwyniadau, erthyglau ar y fewnrwyd a chyngor. Byddwn yn parhau i feithrin perthynas weithio glos â'r Adran Gwaith a Phensiynau, Awdurdod Rheoleiddio'r Cyfreithwyr, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a GLlTEM i gasglu gwybodaeth, rhannu data ac i lywio ein camau atal ac erlyn yn well. Rydym yn cydweithio ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith a Gwasanaeth Erlyn y Goron i sicrhau bod safonau ffeiliau cenedlaethol ac arferion cenedlaethol yn cael eu dilyn.

Drwy gyfrwng gweithgarwch gwrth dwyll yr Asiantaeth yn ystod 2015-16 llwyddwyd i adennill neu gadw £1.9 miliwn o gronfeydd cyhoeddus o'u cymharu ag £1.6 miliwn yn 2014-15.

### Chwythu chwiban

Mae polisi chwythu chwiban a rhwydwaith cymorth y Weinyddiaeth Cyfiawnder cyfan ar gael i'n pobl. Mae hyn yn golygu bod swyddogion annibynnol ar gael i gynorthwyo'r unigolyn i sôn am ei bryderon. Ni chafwyd adroddiad am yr un chwythwr chwiban yn defnyddio'r llwybr hwn.

### Sicrwydd gwybodaeth a diogelwch data

Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol yr Asiantaeth yw Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (Uwch Berchennog) yr Asiantaeth ac mae'n aelod o Fwrdd Uwch Berchnogion y Weinyddiaeth Cyfiawnder lle mae modd trosglwyddo risgiau i lefel uwch. Mae Uwch Berchennog yr Asiantaeth yn cael cymorth yn ei rôl gan arbenigwyr sicrwydd gwybodaeth a rhwydwaith o Berchnogion Asedau Gwybodaeth, sy'n gyfrifol am ddynodi a rheoli asedau gwybodaeth yn eu maes gweithredu.

Yn 2015-16, cafwyd adroddiadau am 358 o ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol ac fe ymchwiliwyd iddynt yn unol â'r gweithdrefnau adrodd y cytunwyd arnynt.

### Crynodeb o'r digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â data personol yn 2015-16

| Categori | Natur y digwyddiad | Cyfanswm |
|---|---|---|
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu gwarchod yn ddigonol yn eiddo'r llywodraeth sydd wedi'i ddiogelu | 99 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu gwarchod yn ddigonol yn eiddo'r llywodraeth sydd wedi'i ddiogelu'n allanol | 29 |
| III | Gwaredu offer electronig, dyfeisiau neu bapur heb eu gwarchod yn ddigonol, mewn ffordd anniogel | 0 |
| IV | Datgelu heb awdurdod | 230 |
| V | Arall | 0 |
| Cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd | | 358 |

Mae'r Asiantaeth yn ystyried diogelwch gwybodaeth yn beth difrifol iawn a bydd yn ymchwlio i bob digwyddiad i sicrhau bod yr achosion gwraidd yn cael eu nodi a'u cywiro lle bo modd. At hynny, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn herio ein perfformiad ym maes rheoli digwyddiadau gan roi cyfarwyddyd a chynnig goruchwyliaeth. Bydd yr Asiantaeth yn categoreiddio digwyddiadau diogelwch yn ôl eu heffaith, gan ddefnyddio categorïau difrifol, uchel, canolig ac isel. Yn ystod 2015-16, categoreiddiwyd 94.1% o'r holl ddigwyddiadau diogelwch yn rhai isel; 2.5% yn ganolig; 3.1% yn uchel; a 0.3% yn ddifrifol o ran eu heffaith ac nid ystyriwyd yr un yn ddigwyddiad yn un yr oedd angen adrodd yn ei gylch wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae cyfanswm nifer y digwyddiadau yn ystod 2015-16 yn llai na 0.0002% o gyfanswm ein trafodion.

## Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi lefel gymedrol o sicrwydd, ar sail y gwaith archwilio mewnol a gwblhawyd a'i wybodaeth am fframweithiau llywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg yn yr Asiantaeth. Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod gan yr Asiantaeth lawer o elfennau cryf ar waith a'i bod ar y cyfan yn cadw'n dda at y polisiau a'r trefniadau rheoli y mae wedi cytuno arnynt. Ystyriodd hefyd y ffaith bod yr Asiantaeth wedi canfod achos lle'r oedd amheuaeth bod twyll difrifol wedi digwydd a'i bod wedi ymateb yn effeithiol i hynny.

## Casgliad

Rwy'n hyderus bod y datganiad hwn yn rhoi cyfrif cynhwysfawr am y trefniadau llywodraethu, rheoli risg a'r trefniadau rheoli sydd wedi bwrw gwreiddiau gennym yn yr Asiantaeth. Y bobl a'r prosesau sydd ar waith sy'n gyfrifol am lwyddiant y trefniadau hyn, gan sicrhau bod yr Asiantaeth wedi cyflawni ei hamcanion busnes.

Rwy'n falch ysgwyddo gwaith Prif Weithredwr yr Asiantaeth a chael y cyfle i adeiladu ar y pedair blynedd diwethaf a'r gwelliannau y mae Matthew Coats wedi'u cyflwyno. Rwy'n ymrwymo i barhau i sbarduno gwasanaethau mwy effeithlon, clyfrach i'r cyhoedd ac i ddarparwyr a sicrhau bod yr Asiantaeth yn dal i fod yn lle gwych i weithio, fel y mae heddiw.

**Llofnodwyd ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**

**Shaun McNally CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
(ers 1 Ebrill 2016)
30 Mehefin 2016

# Adroddiad am daliadau a staff

Mae'r bennod hon yn crynhoi polisi'r Asiantaeth ar gyfer taliadau i Aelodau Gweithredol y Bwrdd, Aelodau Anweithredol y Bwrdd a'r staff; mae hefyd yn darparu manylion y costau gwirioneddol a threfniadau contract.

Mae'r Adroddiad am daliadau a staff wedi'i baratoi'n unol â gofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Y Prif Weinidog sy'n pennu polisi taliadau Uwch Weision Sifil ar ôl cael cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Uwch Gyflogau. Pennwyd cyflogau Aelodau Gweithredol Bwrdd yr Asiantaeth ar ôl cynnal trafodaethau rhwng Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol yn unol â rheolau Cod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Nid oes gan yr Asiantaeth Bwyllgor Taliadau, Bydd prif swyddogaethau'r pwyllgor hyn yn cael eu cyflawni drwy Bwyllgor Gweithlu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Cadeirydd Pwyllgor Gweithlu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yw'r Ysgrifennydd Parhaol a bydd holl Gyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Weithredwyr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, GLlTEM a'r Asiantaeth yn ei fynychu. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod bob mis i reoli doniau, gallu ac adnoddau pobl. Hefyd, mae'r pwyllgor yn cyfrifol am sicrhau bod gan yr Asiantaeth weithlu o'r maint cywir, bod hwnnw'n yn meddu ar y sgiliau cywir, ac yn cael ei reoli'n dda, wedi'i gymell yn briodol ac yn cael ei ddefnyddio'n iawn.

Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn wedi'u harchwilio gan yr archwilydd allanol, y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

## Y Polisi Taliadau

### Aelodau Gweithredol y Bwrdd

**Contractau Gwasanaeth**
Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud yn ofynnol penodi gweision sifil ar sail rhagoriaeth mewn cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau sy'n caniatáu penodi drwy ddulliau eraill.

Mae penodiadau Aelodau Gweithredol y Bwrdd y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn rhai penagored. Petai swydd rhywun yn cael ei therfynu'n gynnar, ac eithrio ar gyfer camymddwyn, byddai hynny'n golygu bod yr unigolyn yn cael iawndal fel y'i nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn:

www.civilservicecommission.org.uk

**Y broses perfformiad**
Bydd Uwch Weision Sifil yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet o ran Fframwaith Rheoli eu Perfformiad. Cynhelir dwy drafodaeth Adolygu Rheoli Perfformiad 'ffurfiol' y flwyddyn ac wedyn cyfarfodydd un-ac-un rheolaidd i fonitro cynnydd a sicrhau bod pob amcan yn dal yn berthnasol.

**Cyfanswm cyflogau a ffioedd**
Mae cyflogau a lwfansau'n cynnwys symiau pensiynadwy ac amhensiynadwy ac yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i hynny'n unig o reidrwydd: cyflogau crynswth; goramser; hawliau cadw i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat neu lwfansau eraill i'r graddau eu bod yn agored i'w trethu ac unrhyw daliadau ex-gratia. Nid yw'n cynnwys symiau a ad-delir i unigolion am eu treuliau uniongyrchol wrth gyflawni eu dyletswyddau.

### Pob budd trethadwy

Mae gwerth ariannol buddion ymarferol yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac y mae Cyllid a Thollau EM yn eu trin yn enillion trethadwy.

Amcangyfrifon yw'r buddion ymarferol a ddatganwyd ar gyfer Aelodau Gweithredol ac Anweithredol y Bwrdd. Bydd yr Asiantaeth a Chyllid a Thollau EM yn cytuno ynghylch y gwerthoedd terfynol, ac fe'u telir gan ddefnyddio Cytundeb y Setliad Talu Wrth Ennill.

### Taliadau bonws

Telir bonysau ar sail lefelau perfformiad ac fel rhan o'r broses arfarnu. Bydd y bonysau'n berthnasol i'r perfformiad yn ystod y flwyddyn y byddant yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r bonysau yr adroddir yn eu cylch yn 2015-16 yn berthnasol i'r perfformiad yn 2014-15 a'r bonysau yr adroddwyd yn eu cylch yn 2014-15 yn berthnasol i'r perfformiad yn 2013-14.

### Buddion cysylltiedig â phensiynau

Mae Adran 229 o Ddeddf Cyllid 2004 yn pennu uchafswm blynyddol yr arbedion ar bensiynau y gellir eu cronni o dan drefniant buddion diffiniedig cyn codi unrhyw dreth. Swm yr arbedion a ddangosir yn Nhabl A yw'r cynnydd yng ngwerth y buddion a addawyd i'r unigolyn dros gyfnod mewnbynnu'r pensiwn (sef y flwyddyn ariannol i'r Asiantaeth). Ystyr unrhyw gynnydd fydd y gwahaniaeth rhwng gwerth buddion yr unigolyn ar ddechrau cyfnod mewnbynnu'r pensiwn (1 Ebrill 2015) a gwerth buddion yr unigolyn ar ddiwedd cyfnod mewnbynnu'r pensiwn (31 Mawrth 2016); mae hyn hefyd yn cynnwys unrhyw gynnydd i'r cyflog pensiynadwy.

Mae'r rheoliadau'n pennu addasiad i reolau Cyllid a Thollau EM at y pwrpas hwn. Er mwyn prisio'r buddion, mae'r Trysorlys EM wedi cynghori cynlluniau pensiwn i ddefnyddio lluosydd o 20.

### Pecynnau ymadael

Mae gwybodaeth am becynnau ymadael yn yr adroddiad am y staff.

Nid oedd dim iawndaliadau'n daladwy i Aelodau Gweithredol y Bwrdd am derfynu eu gwasanaeth yn fuan.

### Aelodau Anweithredol y Bwrdd (AAB)

Recriwtiwyd tri AAB drwy gystadleuaeth agored yn unol â Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010. Fe'u penodwyd ar sail eu rhagoriaeth ac i gydnabod eu gallu a'u profiad fel unigolion a hynny gan banel a oedd yn cynnwys un AAB o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac arbenigwr pwnc yn ôl y gofyn. Penodwyd yr AAB gan y Prif Weithredwr am gyfnod penodedig o dair blynedd.

Nid yw AAB yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac nid oes ganddynt yr hawl i fuddion na thaliadau eraill.

Os terfynir penodiad AAB am resymau ar wahân i fod eu cyfnod wedi dod i ben, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder benderfynu bod iawndal yn daladwy oherwydd natur y terfynu a hyd y cyfnod sy'n weddill.

Mae manylion telerau gwasanaeth AAB, eu buddion neu eu taliadau wedi'u cynnwys yn Nhablau E ac F.

### Aelodau Gweithredol y Bwrdd

Dilynodd y Prif Weithredwr a holl Aelodau Gweithredol y Bwrdd broses yr Adolygiad Rheoli Perfformiad a ddisgrifiwyd yn yr adran am y broses perfformiad ar dudalen 36. Cafodd y cynnydd a'r amcanion eu monitro ddwywaith y flwyddyn gan y tîm Adnoddau Dynol. Mae'r mesurau perfformiad ar gyfer pob Aelod Gweithredol o'r Bwrdd wedi'u cyflawni.

## Tabl A: Uwch gyflogeion yn eu swydd ar 31 Mawrth 2016 - Costau cyflogi

| | 2015-16 | | | | | 2014-15 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodau Gweithredol y Bwrdd** | Cyfanswm cyflogau a ffioedd (bandiau o £5,000) | Pob budd trethadwy (hyd at y £100 agosaf) | Taliadau bonws (bandiau o £5,000) | Buddion cysylltiedig â phensiynau (at y £1,000 agosaf) | Cyfanswm (at y £1,000 agosaf) | Cyfanswm cyflogau a ffioedd (bandiau o £5,000) | Pob budd trethadwy (hyd at y £100 agosaf) | Taliadau bonws (bandiau o £5,000) | Buddion cysylltiedig â phensiynau (at y £1,000 agosaf) | Cyfanswm (at y £1,000 agosaf) |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Matthew Coats**[1] *Prif Weithrdwr yr Asiantaeth a Chyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Corfforaethol (ymadawodd 31 Mawrth 2016)*[5] | 140-145 | - | - | 77 | 220-225 | 140-145 | 0.1 | 10-15 | 62[6] | 220-225 |
| **Hugh Barrett** *Cyfarwyddwr Comisiynu a Strategaeth* | 140-145 | - | - | 40 | 180-185 | 140-145 | - | 10-15 | 32 | 185-190 |
| **Catherine Little** *Cyfarwyddwr Cyllid a Digidol (Ymadawodd 31 Mawrth 2016)*[5] | 95-100 | - | - | 38 | 135-140 | 90-95 | - | - | 34 | 125-130 |
| **Shaun McNally CBE** *Cyfarwyddwr Rheoli Achosion (Penodwyd PW 1 Ebrill 2016)*[5] | 90-95[2] | 42.9[3] | 10-15 | 36 | 180-185 | 90-95[2] | 53.1[3] | 10-15 | 11 | 165-170 |
| **Ruth Wayte**[4] *Gynghorydd Cyfreithiol yr Asiantaeth* | 95-100 | - | - | 39 | 135-140 | 95-100 | - | - | 24 | 120-125 |

1 Ers 3 Mehefin 2013 mae Matthew Coats hefyd wedi'i gyflogi'n Gyfarwyddwr Gyffredinol Gwasanaethau Corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r hyn a delir iddo'n cynnwys y ddwy swydd ac adroddir am hyn hefyd yng Nghyfrifon y Weinyddiaeth Cyfiawnder i ddangos ei gyfrifoldebau deuol.

2 Cafodd Shaun McNally Lwfans Teithio Uwch o £9,761 oherwydd iddo newid ei fan gwaith parhaol. Talwyd y lwfans fel taliad unswm a thaliad am gyfnod o 3 blynedd yw hwn. Mae swm pro rata, sef £3,254 wedi'i gynnwys yn y ffigur uchod. Dyma'r flwyddyn olaf y telir y lwfans hon.

3 Ac yntau'n Gyfarwyddwr Rheoli Achosion, mae'r swydd yn cynnwys pob tîm Rheoli Achosion yn y swyddfeydd rhanbarthol, ac felly sefydlwyd cytundeb gweithle deuol ar 1 Ebrill 2013. Mae'r costau uchod yn dangos y budd ymarferol ar gyfer yr holl deithio i weithleoedd deuol ac yn ôl.

4 Telir i Ruth Wayte drwy asiantaeth trydydd parti.

5 Ymadawodd Matthew Coats a Catherine Little â'u swyddi ar 31 Mawrth 2016. Ar 1 Ebrill 2016, penodwyd Shaun McNally yn Brif Weithredwr ac yn Gyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol a phenodwyd James McEwen yn Gyfarwyddwr Cyllid a Digidol.

6 Mae'r symiau wedi'u hailddatgan oherwydd bod gwybodaeth ddiwygiedig wedi dod i law gan ein darparwr pensiynau yn ystod y flwyddyn

## Tabl B: Taliadau yn ôl band i'r Aelod Gweithredol o'r Bwrdd y telir y cyflog mwyaf iddo

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| **Band cyfanswm y taliadau i'r Aelod Gweithredol o'r Bwrdd y telir y cyflog mwyaf iddo (£000)** | **140-145** | 155-160 |
| **Canolrif cyfanswm y taliadau (£)** | **21,982** | 22,181[1] |
| **Cymhareb** | **6.5 : 1** | 7.1 : 1 |

1 Mae'r symiau wedi'u hailddatgan am fod gwybodaeth ddiwygiedig ynglŷn â staff yr asiantaeth wedi dod i law yn ystod y flwyddyn.

Mae gofyn i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog yr Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd y telir mwyaf iddynt yn eu sefydliad a chanolrif enillion gweithlu'r sefydliad.

Y taliadau yn ôl band i'r Aelod Gweithredol o'r Bwrdd y telir mwyaf iddo yn yr Asiantaeth ym mlwyddyn ariannol 2015-16 oedd £140k -145k (2014-15: £155k-160k). Roedd hyn yn 6.5 (2014-15: 7.1) gwaith canolrif y taliadau i'r gweithle, sef £21,982 (2014-15: £22,181).

Roedd y taliadau i staff yn amrywio o £10k-15K i £190k-195k (2014-15: £10k-15k i £190k-195k). Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw dâl diswyddo yn sgil diswyddiadau gorfodol a staff yn ymadael yn gynnar yn wirfoddol a ddatgelir yn nhabl costau'r staff ar dudalen 44.

Yn 2015-16, cafodd un contractwr (2014-15: un) daliad band o £190k- 195k a oedd yn uwch nag a gafodd yr Aelod Gweithredol o'r Bwrdd y telir mwyaf iddo.

Roedd cyfanswm y taliadau'n cynnwys cyflogau, taliadau cysylltiedig â pherfformiad heb eu cyfuno a buddion ymarferol, yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid oedd yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

## Tabl C: Aelodau Gweithredol y Bwrdd – contractau cyflogaeth

| Aelodau Gweithredol y Bwrdd | Dyddiad dechrau'r contract | Cyfnod gwasanaethu (bl) | Cyfnod rhybudd (misoedd) |
|---|---|---|---|
| Matthew Coats[1] | 27 Chwefror 2012 | 4 | 3 |
| Hugh Barrett | 1 Rhagfyr 2008 | 7 | 3 |
| Catherine Little[1] | 1 Ebrill 2014 | 2 | 3 |
| Shaun McNally CBE[1] | 22 Hydref 2012 | 3 | 3 |
| Ruth Wayte | 7 Gorffennaf 2003 | 12 | 3 |

1 Ymadawodd Matthew Coats a Catherine Little â'u swyddi ar 31 Mawrth 2016. Ar 1 Ebrill 2016, penodwyd Shaun McNally yn Brif Weithredwr ac yn Gyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol a phenodwyd James McEwen yn Gyfarwyddwr Cyllid a Digidol.

## Buddion pensiwn y gwasanaeth sifil

### Cyflwyno Alpha

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd i weision sifil - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu Alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa ac oedran bensiwn normal sy'n cyfateb i oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch).

O'r dyddiad hwnnw ymlaen, ymunodd pob gwas sifil a benodwyd o'r newydd a'r rhan fwyaf o'r rheini sydd eisoes yn gwasanaethu â chynllun Alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn dod o fewn un o bedair adran Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Roedd tair o'r rhain yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (Classic, Premium neu Classic Plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (Nuvos) gydag oedran bensiwn arferol o 65.

Arhosodd y rheini a oedd eisoes yn aelodau o'r Prif Gynllun ac a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran bensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 o fewn eu hadrannau perthnasol yn y cynllun hwnnw ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheini a fydd yn cyrraedd eu hoedran bensiwn normal ymhen rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis ar 1 Ebrill 2012 yn ymuno ag Alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022.

Bydd pob aelod sydd wedi ymuno ag Alpha yn cael 'bancio''r buddion cadw sydd ganddynt yn y Prif Gynllun Pensiwn. Bydd buddion aelodau sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y Prif Gynllun Pensiwn yn cael eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn ymadael ag Alpha. (Mae ffigurau'r pensiynau a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn y Prif Gynllun Pensiwn neu yn Alpha - fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn y Prif Gynllun Pensiwn ac yn Alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar wahanol oedran.)

### Ariannu'r Prif Gynllun Pensiwn

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu ac mae cost y buddion yn cael ei thalu drwy arian y bydd y Senedd yn pleidleisio i'w roi bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau Classic, Premium, Classic Plus, Nuvos ac Alpha yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau.

### Cyfraddau cyfraniadau'r gweithwyr

Mae cyfraniadau'r gweithwyr yn gysylltiedig â'u cyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau o'r cynllun Classic (ac aelodau o Alpha a oedd yn aelodau o Classic yn union cyn iddynt ymuno ag Alpha) a rhwng 4.6% ac 8.05% i aelodau Premium, Classic Plus, Nuvos a phob aelod arall o Alpha.

### Buddion y cynlluniau pensiwn

Bydd buddion y Classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, bydd taliad unswm sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy pan fydd rhywun yn ymddeol.

Bydd buddion y Premium yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth.

Yn ei hanfod cyfuniad yw Classic Plus lle bydd y buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn yr un modd ag ar gyfer y Classic a buddion ar gyfer gwasanaeth ers Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn ur un modd â'r Premium.

Yn Nuvos, bydd aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth, bydd y pensiwn y mae'r aelod wedi'i ennill yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun a bydd y pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio'n unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau.

Bydd y buddion yn Alpha'n cronni mewn ffordd debyg i Nuvos, ac eithrio mai 2.32% yw'r gyfradd gronni.

Ym mhob achos, caiff aelodau ddewis ildio'r pensiwn (ei gyfnewid) am daliad unswm hyd at y terfynau a bennir o dan Ddeddf Cyllid 2004.

**Cyfrif pensiwn partneriaeth**

Roedd aelodau a ymunodd ar ôl Hydref 2002 yn cael dewis cyfrannu naill ai at bensiwn rhanddeiliad 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth) neu at un o'r trefniadau buddion diffiniedig o fewn y Prif Gynllun Pensiwn.

Trefniant pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn Partneriaeth. Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% hyd at 30 Medi 2015 a rhwng 8% a 14.75% o 1 Hydref 2015 ymlaen (a dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y gweithiwr o blith panel o ddarparwyr. Nid oes yn rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond lle bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn darparu swm cyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% o'r cyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 ac 0.5% o'r cyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015 ymlaen i dalu am gost gwarchod buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth yn ystod gwasanaeth ac ymddeol oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd gan yr aelod yr hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd yn gorffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yma:

www.civilservicepensionscheme.org.uk

Tabl D: Aelodau Gweithredol y Bwrdd – Costau pensiynau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth

| | Cyfanswm y pensiwn cronedig sy'n daladwy yn 60 oed ar 31 Mawrth 2016 a'r taliad unswm cysylltiedig | Symud gwirioneddol mewn pensiynau a thaliadau unswm cysylltiedig sy'n daladwy yn 60 oed | CETV ar 31 Mawrth 2016[3] | CETV at 31 Mawrth 2015 | Gwir gynnydd mewn |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Matthew Coats**[1] | Pensiwn 50-55<br>Taliad Unswm 0 | Pensiwn 2.5-5<br>Taliad Unswm 0 | 843 | 721[4] | 48 |
| **Hugh Barrett**[2] | Pensiwn 20-25<br>Taliad Unswm 0 | Pensiwn 2.5-5<br>Taliad Unswm 0 | 438 | 364 | 39 |
| **Catherine Little**[1] | Pensiwn 5-10<br>Taliad Unswm 0 | Pensiwn 0-2.5<br>Taliad Unswm 0 | 56 | 35 | 8 |
| **Shaun McNally CBE**[1] | Pensiwn 30-35<br>Taliad Unswm 95-100 | Pensiwn 0-2.5<br>Taliad Unswm 0-2.5 | 588 | 519 | 16 |
| **Ruth Wayte**[1] | Pensiwn 5-10<br>Taliad Unswm 0 | Pensiwn 0-2.5<br>Taliad Unswm 0 | 78 | 48 | 19 |

1 Mae Matthew Coats, Catherine Little, Ruth Wayte a Shaun McNally wedi symud i gynllun Alpha y Prif Gynllun Pensiwn yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.
2 Mae Hugh Barrett yn aelod o gynllun Premium y Prif Gynllun Pensiwn.
3 Adolygwyd y ffactorau a ddefnyddir i gyfrifo'r Gwerthoedd Cyfwerth gan actwari'r cynllun yn 2015, felly nid yw tablau'r ffactorau a ddefnyddir i'w cyfrifo yn 2015 yr un fath â'r rheini a ddefnyddir i'w cyfrifo yn 2016.
4 Mae'r symiau wedi'u hailddatgan am fod gwybodaeth ddiwygiedig wedi dod i law yn ystod y flwyddyn gan ein darparwr Pensiynau.

## Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn sydd wedi cronni gan aelod ar adeg benodol ac sydd wedi'i asesu can actwari. Bydd y budd sydd wedi cael ei brisio hefyd yn cynnwys unrhyw bensiwn sy'n daladwy i gymar dan y cynllun. Pan fydd aelod yn ymadael â'i gynllun ac yn dewis trosglwyddo'i fuddion cronedig, telir gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod o dan y cynllun i gynllun pensiwn cofrestredig arall.

Mae ffigurau'r pensiwn a ddangosir yn berthnasol i fuddion cronedig holl aelodau'r cynllun ac yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn sydd wedi'u trosglwyddo i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil o drefniadau pensiwn eraill. Bydd Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn cael eu cyfrifo'n unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac ni ystyrir unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ddarpar ostyngiad mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan gymerir buddion y pensiwn.

## Y gwir gynnydd mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerthoedd y mae'r cyflogwr yn talu amdanynt ac eithrio effaith y codi a'r gostwng yn y gwerth trosglwyddo, megis symudiadau yn y farchnad buddsoddi. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn Pensiwn cronedig yn unol â chwyddiant neu gyfraniad a delir gan y gweithiwr, ond mae'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun Pensiwn arall. Defnyddir ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Aelod Anweithredol y Bwrdd (AAB)

Aelodau rhan-amser oedd y rhain ac roedd gofyn iddynt ymrwymo 20 diwrnod y flwyddyn ystod 2015-16. Maent yn dal eu swyddi tan ddiwedd cyfnod eu penodiad.

Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddewis terfynu unrhyw benodiad y mae wedi'i wneud.

## Costau cyflogi – Aelodau Anweithredol y Bwrdd (AAB)

### Tabl E: AAB yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2016 - costau cyflogi

| | 2015-16 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd** | **Cyfanswm y ffioedd** | **Pob budd trethadwy[2]** | **Cyfanswm y ffioedd** | **Pob budd trethadwy[2]** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **John Grosvenor** *AAB Archwilio a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Asiantaeth* | 10.4[1] | 0.6[3] | 10.4[1] | 0.5[3] |
| **Eric Gregory** | 8.0 | 1.1[3] | 8.0 | 0.9[3] |
| **Andrew Lockley** | 8.0 | 2.1[3] | 8.0 | 1.3[3] |

1 Mae'r taliad yn cynnwys £2,400 fel Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Asiantaeth.
2 Mae cost y treuliau'n amrywio yn ôl y pellter rhwng cartref yr AAB a swyddfa'r Asiantaeth, ymrwymiadau teithio eraill sy'n ofynnol yn eu rôl, a'r amser a ymrwymir gan yr AAB unigol. Talwyd i'r AAB am deithio a threuliau eraill gan gynnwys unrhyw dreth a delid ar y treuliau hynny.
3 Ar gyfer AAB, mae'r treuliau teithio a chynhaliaeth a hawlir, o dan reolau Cyllid a Thollau EM yn agored i Dreth Incwm ac Yswiriant Gwladol, ac fe delir hyn gan yr Asiantaeth gan ddefnyddio Cytundeb y Setliad Talu wrth Ennill.

### Tabl F: AAB - contractau cyflogaeth

| Costau Aelodau Anweithredol y Bwrdd: | Dyddiad Dechrau'r Contract | Cyfnod gwasanaeth (blynyddoedd) |
|---|---|---|
| John Grosvenor | 1 Tachwedd 2012 | 3 |
| Eric Gregory | 1 Ionawr 2013 | 3 |
| Andrew Lockley | 31 Ionawr 2013 | 3 |

Estynnwyd contract pob AAB dair blynedd yn ystod 2015-16. Ni ymadawodd yr un AAB â'r Asiantaeth yn ystod 2015-16.

Tabl G: Costau staff ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | 2015-16 | 2015-16 | 2015-16 | 2014-15 | 2014-15 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol a gyflogwyd** | **Eraill** | **Cyfanswm** | Staff parhaol a gyflogwyd | Eraill | Cyfanswm |
| | **£000** | **£000** | **£000** | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau wythnosol a misol | **42,964** | **7,579** | **50,543** | 40,193 | 4,946 | 45,139 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **3,233** | **193** | **3,426** | 3,100 | 230 | 3,330 |
| Costau pensiynau eraill | **8,030** | **445** | **8,475** | 7,092 | 441 | 7,533 |
| | **54,227** | **8,217** | **62,444** | 50,385 | 5,617 | 56,002 |
| Llai adenillion am secondiadau allan | **(333)** | **-** | **(333)** | (214) | - | (214) |
| Diswyddo[1] | **7,063** | **-** | **7,063** | 1,169 | - | 1,169 |
| | **60,957** | **8,217** | **69,174** | 51,340 | 5,617 | 56,957 |
| **Costau Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | | | | | | |
| Ffioedd i Aelodau Anweithredol y Bwrdd: | **29** | **-** | **29** | 26 | - | 26 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **1** | **-** | **1** | 1 | - | 1 |
| | **30** | **-** | **30** | 27 | - | 27 |
| **Cyfanswm** | **60,987** | **8,217** | **69,204** | 51,367 | 5,617 | 56,984 |

1 Mae'r costau diswyddo a ddatgelir yn y tabl uchod yn berthnasol i 206 (2015: 34) o staff cyfwerth ag amser llawn, a darpariaeth ar gyfer ymadael yn gynnar.

Drwyddi draw, cynyddodd costau staff £12.2m o'u cymharu â chostau'r llynedd. Y rheswm dros hyn oedd bod Tîm Ceisiadau Troseddol GLlTEM a'r Tim Costau Cenedlaethol wedi cael eu trosglwyddo ac wedi dod yn staff parhaol i'r Asiantaeth ar gyfer blwyddyn lawn 2015-16. Mae £3.3 miliwn arall yn berthnasol i gostau staff TG yn sgil newidiadau yn strwythur y Tîm Digidol. Mae'r £5.9 miliwn sy'n weddill yn berthnasol i'r Cynllun Ymadael yn Gynnar yn Wirfoddol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Cyfalafwyd costau cyflogi ychwanegol, sef £3,564k (2014: £7,431k), sy'n berthnasol i staff sy'n gweithio ar brosiectau cyfalaf, yn ystod y flwyddyn.

Mae costau pensiwn eraill yn berthnasol i gyfraniadau cyflogwyr i Gyfrif y Prif Gynllun Pensiwn a Chyfrif y Pensiwn Partneriaeth. Mae costau'n gallu codi yng nghyswllt gweithwyr parhaol yr Asiantaeth a'r rhai nad ydynt yn barhaol.

Mae'r ffioedd i AAB yn cynnwys ad-dalu costau teithio o'u cartref i'r swyddfa a'r dreth a delir gan yr Asiantaeth ar y treuliau hyn.

## Tabl H: Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd

Dyma nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn:

| | 2015-16 | 2015-16 | 2015-16 | 2014-15 | 2014-15 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol a gyflogwyd** | **Eraill** | **Cyfanswm** | Staff parhaol a gyflogwyd | Eraill | Cyfanswm |
| Cyflogwyd yn uniongyrchol | **1,363** | **114** | **1,477** | 1,276 | 145 | 1,421 |
| Eraill | **-** | **104** | **104** | - | 63 | 63 |
| Staff yn gweithio ar brosiectau cyfalaf | **35** | **30** | **65** | 36 | 52 | 88 |
| **Cyfanswm** | **1,398** | **248** | **1,646** | 1,312 | 260 | 1,572 |

Cyfartaledd nifer yr AAB yn eu swydd yn ystod y flwyddyn oedd tri aelod cyfwerth ag amser llawn (2014-15: 3). Mae cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod 2015-16 yn cynnwys un AAB (2014-15: 1).

## Tabl I: Uwch staff y Gwasanaeth sifil fesul band*

| | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| Band cyflog 1 yr Uwch Wasanaeth Sifil | **2** | **5** |
| Band cyflog 2 yr Uwch Wasanaeth Sifil | **3** | **1** |
| Band cyflog 3 yr Uwch Wasanaeth Sifil | **1** | **-** |

* Mae'r niferoedd hyn yn cynnwys aelodau'r Tîm Gweithredol

### Cyfansoddiad y staff

Ar 31 Mawrth 2016, o'r data a oedd ar gael am y rhywiau, roedd 925 o fenywod a 657 o ddynion yn cael eu cyflogi mewn swydd barhaol gan yr Asiantaeth.

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ein nod yw denu a chadw gweithlu cynrychioladol sy'n deall anghenion y boblogaeth amrywiol y byddwn yn ei gwasanaethu a gallu defnyddio'r wybodaeth hon i wella'r ffordd y byddwn yn darparu cymorth cyfreithiol Mae gan yr Asiantaeth ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, i hybu cyfle cyfartal ac i feithrin cysylltiadau da. Byddwn yn sicrhau bod hyn yn berthnasol i holl swyddogaethau'r Asiantaeth.

Rydym wedi penodi hyrwyddwr amrywiaeth yn ein Tîm Gweithredol sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo blaenoriaethau amrywiaeth yr Asiantaeth gyda chymorth rhwydwaith o hyrwyddwyr ledled yr Asiantaeth.

Dyma flaenoriaethau'r Asiantaeth ym maes amrywiaeth:

- Sicrhau bod yr arweinwyr yn hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;
- cynyddu'r gefnogaeth i staff sydd ag anabledd;
- meithrin diwylliant cynhwysol tuag at wahanol batrymau gweithio;
- cefnogi cynrychiolaeth amrywiol ymhlith y staff ar raddfeydd uwch;
- gwella gallu'r staff i roi sylw i'r ddyletswydd gydraddoldeb i'n galluogi i gomisiynu a gweinyddu cymorth cyfreithiol yn effeithlon.

Yn 2015-16 daethom i'r brig yng Ngwobrau Gweithwyr Cenedlaethol 2015 - y Categori Amrywiaeth ac rydym hefyd wedi:

- Darparu gweithdai sy'n hyrwyddo gwell dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;
- cryfhau'r ymwybyddiaeth o fwlio ac aflonyddu i rymuso staff i weithredu lle bydd angen;
- darparu 'ffocws y mis' rheolaidd i gryfhau'r ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyflyrau meddygol penodol.

Byddwn yn adrodd am gamau penodol o dan fframwaith Amcan Cydraddoldeb y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ac mae manylion y rhain yn: www.gov.uk/government/publications/ministry-of-justice-equality-objectives-2012-2016

www.gov.uk/government/publications/ministry-of-justice-equality-objectives-2012-2016

www.gov.uk/government/publications/diversity-report-2014-to-2015

## Cyflogi pobl anabl

Mae'r Asiantaeth wedi mabwysiadu polisïau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gyda golwg ar gyflogi, hyfforddi, datblygu gyrfa a dyrchafu pobl ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys Polisi Cyfle Cyfartal y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Polisi Anabledd a'r Llawlyfr Gallu. Mae Gwasanaeth Cymorth Addasiadau Rhesymol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, rhaglen Anogaeth i Weithredu'n Gadarnhaol y Gwasanaeth Sifil a'n rhaglenni datblygu Gyrfa sydd wedi'u targedu i helpu pobl ag anabledd ar gael i'n pobl.

## Data am absenoldeb oherwydd salwch

Bydd y diwrnodau gweithio a gollir ar gyfartaledd yn cael eu monitro'n rheolaidd ac adroddiadau misol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd. Rydym wedi parhau i wella yn y cyswllt hwn ac mae'r sefyllfa wedi gwella'n sylweddol ers y llynedd ac o'i gymharu â'n targedau.

| | Meincnod y Gwasanaeth Sifil | Meincnod yr Asiantaeth | 2015-16 | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|
| Diwrnodau gweithio a gollwyd ar gyfartaledd | 7.3 | 7.3 | 6.9 | 7.1 | 7.6 |

Tabl J: Adrodd am gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael

| | 2015-16 | 2015-16 | 2015-16 | 2014-15 | 2014-15 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael |
| Band costau'r pecyn ymadael | | | | | | |
| < £10,000 | - | 25 | 25 | - | 1 | 1 |
| £10,000 - £25,000 | - | 65 | 65 | - | 8 | 8 |
| £25,000 - £50,000 | - | 80 | 80 | - | 19 | 19 |
| £50,000 - £100,000 | - | 35 | 35 | - | 5 | 5 |
| £100,000 - £150,000 | - | 1 | 1 | - | - | - |
| £150,000 - £200,000 | - | - | - | - | 1 | 1 |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul math** | - | 206 | 206 | - | 34 | 34 |
| **Cyfanswm cost adnoddau (£000)** | - | 6,747 | 6,747 | - | 1,169 | 1,169 |

Cytunwyd ar gostau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a grëwyd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cyfrifir y costau ymadael yn llawn ym mlwyddyn yr ymadawiad. Os bydd yr Asiantaeth wedi cytuno ar ymddeoliad cynnar, telir y costau gan yr Asiantaeth ac nid gan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Y cynllun pensiwn fydd yn talu costau ymddeol oherwydd afiechyd ac nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y tabl.

## Costau ymgynghorwyr

Gwariwyd £34k ar ymgynghorwyr yn 2015-16 (2014-15: £93k).

## Pobl sy'n gweithio i'r Asiantaeth oddi ar y gyflogres

Pob gweithiwr oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2016, y telid mwy na £220 y diwrnod iddynt ac a fu'n gweithio am fwy na chwe mis.

| Nifer y gweithwyr ar 31 Mawrth 2016. | 16 |
|---|---|
| O blith y rheini | |
| Nifer sydd wedi bod yn gweithio am lai na blwyddyn adeg yr adroddiad. | 1 |
| Nifer sydd wedi bod yn gweithio rhwng blwyddyn a dwy flynedd adeg yr adroddiad. | 13 |
| Nifer sydd wedi bod yn gweithio rhwng dwy flynedd a thair blynedd adeg yr adroddiad. | 2 |
| Nifer sydd wedi bod yn gweithio rhwng tair blynedd a phedair blynedd adeg yr adroddiad. | - |
| Nifer sydd wedi bod yn gweithio am bedair blynedd neu ragor adeg yr adroddiad | - |

Pob gweithiwr newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rheini a oedd wedi gweithio am gyfnod o chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, y telid mwy na £220 y diwrnod iddynt ac a fu'n gweithio am fwy na chwe mis.

| Nifer y gweithwyr newydd, neu'r rheini a oedd wedi gweithio am gyfnod o chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016. | 8 |
|---|---|
| Nifer yr uchod sy'n cynnwys cymalau yn eu contract sy'n rhoi'r hawl i'r Adran ofyn am sicrwydd ynghylch treth incwm a rhwymedigaethau Yswiriant Gwladol. | 8 |
| Nifer y gofynnwyd am sicrwydd yn eu cylch | 8 |
| ac o blith y rheini: | |
| Y nifer y cafwyd sicrwydd yn eu cylch | 6 |
| Y nifer na chafwyd sicrwydd yn eu cylch[1] | 2 |
| Nifer y terfynwyd eu contract oherwydd na chafwyd sicrwydd | - |

1 Mae'r contractwyr y nodwyd uchod nad oeddent wedi rhoi sicrwydd wedi gadael yr Asiantaeth wedyn. Oherwydd na chafwyd sicrwydd, mae'r Asiantaeth wedi cyfeirio'r unigolion hyn at Gyllid a Thollau EM.

Gwaith oddi ar y gyflogres gan Aelodau'r Bwrdd a/neu, uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.

| | |
|---|---|
| Nifer aelodau'r Bwrdd, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol fu'n gwneud gwaith oddi ar y gyflogres, yn ystod y flwyddyn ariannol | - |
| Nifer yr unigolion yr ystyriwyd eu bod yn "Aelodau'r Bwrdd, a/neu, yn uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys gwaith oddi ar y gyflogres ac ar y gyflogres | 8 |

# Datgeliadau am atebolrwydd seneddol

## Colledion a thaliadau arbennig - archwiliwyd

### Colledion

| | 2015-16 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | £000 | Nifer | £000 |
| Dileadau | 4,217 | 9,265 | 2,457 | 6,396 |
| Colled ddeongliadol | 1 | 556 | - | - |
| Taliadau arbennig | 81 | 955 | - | - |
| **Cyfanswm gwerth colledion** | 4,299 | 10,776 | 2,457 | 6,396 |

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus, bydd colledion unigol dros £300k yn cael eu datgelu ar wahân.

Dilëwyd tri balans cyflenwyr dros £300,000 (2015: dim). Y balansau oedd £320,513, £347,356 a £374,250 a chododd y dyledion yn sgil cwrs arferol y busnes. Ni ddilëwyd unrhyw falansau unigol dros £300,000 a ariennid gan gleientiaid (2015: dim)

### Colled ddeongliadol

Ar 28 Ionawr 2016, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder y rhoddid y gorau i'r tendr cymorth cyfreithiol troseddol. Arweiniodd hyn at gyfanswm colled ddeongliadol gwerth £556k oherwydd yr adnoddau ychwanegol yr oedd eu hangen i asesu ceisiadau tendro, a chostau cyfreithiol allanol ar gyfer creu contractau a chyngor am y broses gaffael.

### Colled bosibl

Mae ymchwiliad ar y gweill i anghysonder rhwng hawliadau cymorth gyfreithiol gan gwmni darparu a'r rheini y gellid eu cadarnhau drwy gofnodion y tribiwnlys a/neu gofnodion cleifion. Cododd hyn yn sgil gweithgarwch rheoli contractau rheolaidd yr Asiantaeth ac fe sbardunodd ymchwiliad swyddogol sydd wedi'i gyfeirio at yr Heddlu Metropolitan.

Mae camau ar y gweill i ddeall achos yr anghysonder. Beth bynnag, mae'r Asiantaeth yn cymryd camau gyda golwg ar y mecanweithiau yn ei Chontract Sifil Safonol i adennill symiau a dalwyd i'r cwmni darparu. Gallai unrhyw swm nad oes modd ei adennill arwain at golled yng nghyfrifon y dyfodol.

### Taliadau arbennig

Cytunodd yr Asiantaeth i ad-dalu gwerth £955k o gostau cyfreithiol a ysgwyddwyd gan fidwyr a oedd yn herio'r tendr cymorth cyfreithiol troseddol cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi gwrthdroi'r bwriad ar 28 Ionawr 2016. Nid oedd yr un taliad unigol yn fwy na £300,000.

**Llofnodwyd ar ran Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**

**Shaun McNally CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
(ers 1 Ebrill 2016)
30 Mehefin 2016

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Datganiadau ynghylch Gwariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau hyn wedi'u paratoi'n unol â'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad am Daliadau a Staff a'r Datgeliadau am Atebolrwydd Seneddol y dywedir yn yr adroddiadau a'r datgeliadau hyn eu bod wedi'u harchwilio.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu, fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol ac adrodd yn eu cylch yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Yr wyf wedi cwblhau fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio i Archwilwyr.

## Hyd a lled yr archwiliad o'r datganiadau ariannol.

Mae archwiliad yn golygu casglu digon o dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys dim camddatgan o sylwedd - boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol ar gyfer amgylchiadau'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ac wedi'u rhoi ar waith yn gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Rwyf hefyd wedi darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i weld a oes unrhyw anghysonderau o sylwedd â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i weld a oes unrhyw wybodaeth sydd i bob golwg yn sylweddol anghywir ar sail y wybodaeth yr wyf wedi'i chasglu wrth baratoi'r archwiliad, neu sy'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os byddaf yn cael ar ddeall bod unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylweddol ymddangosiadol, byddaf yn ystyried goblygiadau hynny ar gyfer rhoi fy nhystysgrif.

Mae gofyn imi gasglu digon o dystiolaeth i gynnig sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u rhoi ar waith at y dibenion y mae'r Senedd wedi bwriadu iddynt gael eu rhoi ar waith a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd o sylwedd, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u rhoi ar waith at y dibenion y mae'r Senedd wedi bwriadu iddynt gael eu defnyddio ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn am y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar 31 Mawrth 2016 a'r gwariant net ar gyfer y flwydydn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dani.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau hynny o'r adroddiad am Daliadau a Staff a'r datgeliadau am Atebolrwydd Cyhoeddus sydd i'w harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol wedi'u paratoi'n unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaethpwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad am Berfformiad a'r Adroddiad am Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiaidau ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i adrodd amdano yng nghyswllt y materion a ganlyn y byddaf yn adrodd amdanynt wrthych, os yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu ddatganiadau sy'n ddigonol imi wneud fy archwiliad wedi dod i law gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad am Daliadau a Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol sydd i'w harchwilio'n gyson â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol gennyf ar gyfer gwneud fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf ddim sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

6 Gorffennaf 2016

# Datganiadau Ariannol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | | **2015-16** | Ailddatgan 2014-15 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | **£000** | £000 |
| Incwm o dan y cynlluniau cymorth cyfreithiol | 6 | **(190,535)** | (191,402) |
| Llog ar yr arwystl statudol | | **(9,042)** | (6,745) |
| Incwm rhent | | **(787)** | (787) |
| **Cyfanswm incwm gweithredol** | | **(200,364)** | (198,934) |
| Costau staff | 3 | **69,204** | 56,984 |
| Ailddatgan y gwariant o dan y cynlluniau cymorth cyfreithiol | 4 | **1,720,411** | 1,749,153 |
| Dibrisio ac amorteiddio | 8, 9 | **10,227** | 14,306 |
| Gwariant gweithredol arall | 5 | **39,337** | 44,491 |
| **Cyfanswm costau gweithredol** | | **1,839,179** | 1,864,934 |
| **Costau gweithredol net ar gyfer y flwyddyn** | 2 | **1,638,815** | 1,666,000 |
| **Gwariant cynhwysfawr arall** | | | |
| (Enillion)/colled net wrth ailbrisio asedau anniriaethol | | **(686)** | (534) |
| (Enillion/colled net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | | **(97)** | (115) |
| **Cyfanswm gwariant cynhwysfawr** | | **1,638,032** | 1,665,351 |

Mae’r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus.

Mae’r nodiadau ar dudalennau 57 i 83 yn rhan o’r Datganiadau Ariannol hyn

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad am y Sefyllfa Ariannol
## Ar 31 Mawrth 2016

| | Nodyn | 31 Mawrth 2016 £000 | Ailddatgan 31 Mawrth 2015 £000 | Ailddatgan 1 Ebrill 2014 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | |
| Asedau anniriaethol | 8 | **51,992** | 49,221 | 47,488 |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 9 | **6,282** | 8,413 | 10,865 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **58,274** | 57,634 | 58,353 |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 11 | **133,778** | 111,482 | 105,549 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 12 | **16,192** | 5,752 | 4,623 |
| **Cyfanwm asedau cyfredol** | | **149,970** | 117,234 | 110,172 |
| **Cyfanswm asedau** | | **208,244** | 174,868 | 168,525 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill | 13 | **(241,306)** | (267,440) | (296,439) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | **(592,333)** | (594,429) | (668,113) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(833,639)** | (861,869) | (964,552) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **(625,395)** | (687,001) | (796,027) |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill | 13 | **(558)** | (650) | (742) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | **(1,828)** | (2,092) | (2,277) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(2,386)** | (2,742) | (3,019) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **(627,781)** | (689,743) | (799,046) |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | | |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | | **1,391** | 1,292 | 1,346 |
| Cronfa gyffredinol wrth gefn | | **(629,172)** | (691,035) | (800,392) |
| | | **(627,781)** | (689,743) | (799,046) |

Mae’r nodiadau ar dudalennau 57 i 83 yn rhan o’r Datganiadau Ariannol hyn.
**Llofnodwyd ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**

**Shaun McNally CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu’r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
(ers 1 Ebrill 2016)
30 Mehefin 2016

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad Llifau Arian
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodyn | 2015-16 | Ailddatgan 2014-15 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **All-lifau arian net yn sgil gweithgareddau gweithredu** | | | |
| Diffyg net ar ôl llog | | **(1,638,815)** | (1,666,000) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion tybiannol a rhai nad ydynt yn arian parod | | **20,927** | 24,979 |
| Balansau o fewn adrannau a setlwyd drwy'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn | | **24,154** | 18,058 |
| Colled/(enillion) ar leihad mewn gwerth ac ailbrisio asedau | 5 | **(63)** | 16 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | | **(22,296)** | (5,933) |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill | | **(26,226)** | (29,091) |
| Llai symudiadau mewn symiau taladwy sy'n berthnasol i eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr | | **(105)** | 950 |
| Symudiad mewn darpariaethau | | **(2,360)** | (73,869) |
| **All-lifau arian net yn sgil gweithgareddau gweithredu** | | **(1,644,784)** | (1,730,890) |
| **Llifau arian yn sgil gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau anniriaethol | 7 | **(7,631)** | (12,310) |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 7 | **(724)** | (132) |
| **All-llif arian net yn sgil gweithgareddau buddsoddi** | | **(8,355)** | (12,442) |
| **Llifau arian yn sgil gweithgareddau cyllido** | | | |
| Arian cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder: refeniw | | **1,655,027** | 1,732,870 |
| Arian cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder: cyfalaf | | **8,552** | 11,591 |
| **Mewn-lif arian yn sgil gweithgareddau cyllido** | | **1,663,579** | 1,744,461 |
| Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn | | **10,440** | 1,129 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ddechrau'r flwyddyn | | **5,752** | 4,623 |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ddiwedd y flwyddyn** | 12 | **16,192** | 5,752 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 57 i 83 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodyn | Cronfa ailbrisio wrth gefn | Cronfa gyffredinol wrth gefn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | | **1,346** | **(732,526)** | **(731,180)** |
| Ailddatgan gwaith Cynrychiolaeth Sifil ar y gweill | | | (67,866) | (67,866) |
| **Ailddatgan balans ar 1 Ebrill 2014** | | **1,346** | **(800,392)** | **(799,046)** |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2014-15** | | | | |
| Arian cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder: refeniw | | - | 1,732,870 | 1,732,870 |
| Arian cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder: cyfalaf | | - | 11,591 | 11,591 |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | | - | (1,666,000) | (1,666,000) |
| **Gwariant cynhwysfawr arall** | | | | |
| (Colled)/enillion net ar ailbrisio | | 649 | - | 649 |
| **Addasiad – nid arian parod** | | | | |
| Addasiad o fewn adrannau | | - | 19,423 | 19,423 |
| Ad-daliad tybiannol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | 5 | - | 10,530 | 10,530 |
| Ffi dybiannol archwiliad allanol | 5 | - | 240 | 240 |
| **Symudiad yn y cronfeydd wrth gefn** | | | | |
| Trosglwyddiadau o'r gronfa ailbrisio wrth gefn | | (703) | 703 | - |
| **Ailddatgan balans ar 31 Mawrth 2015** | | 1,292 | (691,035) | (689,743) |
| Ailddatgan balans ar 1 Ebrill 2015 | | **1,292** | **(691,035)** | **(689,743)** |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2015-16** | | | | |
| Arian cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder: refeniw | | - | **1,655,027** | **1,655,027** |
| Arian cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder: cyfalaf | | - | **8,552** | **8,552** |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | | - | **(1,638,815)** | **(1,638,815)** |
| **Gwariant cynhwysfawr arall** | | | | |
| (Enillion)/colled net wrth ailbrisio asedau anniriaethol | | **783** | - | **783** |
| **Addasiad – nid yn arian parod** | | | | |
| Addasiad o fewn adrannau | | - | **25,623** | **25,623** |
| Ad-daliad tybiannol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | 5 | - | **10,572** | **10,572** |
| Ffi dybiannol archwiliad allanol | 5 | - | **220** | **220** |
| **Symudiad yn y cronfeydd wrth gefn** | | | | |
| Trosglwyddiadau o'r gronfa ailbrisio wrth gefn | | **(684)** | **684** | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | | **1,391** | **(629,172)** | **(627,781)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 57 i 83 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn

# Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol Nodiadau'r Datganiadau Ariannol Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

## Nodyn 1 - Datganiad ynghylch y polisïau cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2015-16, o dan y cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae polisïau cyfrifyddu'r Llawlyfr yn dilyn y Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol, fel y cânt eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bydd y Llawlyfr yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (yr Asiantaeth) at ddiben rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr Asiantaeth isod. Mae'r rhain wedi'u rhoi ar waith yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

**a) Sail eu paratoi**

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn Sterling gan dalgrynnu'r ffigurau at y fil agosaf (£000) oni nodir yn wahanol. Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, a hwnnw wedi'i addasu gyda golwg ar ailbrisio rhai asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol, lle bo hynny'n berthnasol, ac asedau anghyfredol yn ôl eu gwerth i'r Asiantaeth drwy gyfeirio at eu costau cyfredol. Mae hyn yn cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys EM.

Wrth baratoi datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio â'r Safonau Rhyngwladol, mae gofyn llunio barn, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar symiau'r asedau a'r dyledion yr adroddir yn eu cylch ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau incwm a gwariant yr adroddir yn eu cylch yn ystod y cyfnod adrodd. Seilir yr amcangyfrifon a'r tybiaethau cysylltiedig ar brofiad hanesyddol ac ar ffactorau amrywiol eraill y tybir eu bod yn rhesymol, ac ar ganlyniadau'r rhain y seilir y farn am werthoedd cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn gwbl amlwg o ffynonellau eraill. Mae'n bosibl y bydd y canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Datgelir y meysydd hynny lle bydd gofyn llunio barn ar lefel uwch neu ar lefel fwy cymhleth, neu'r meysydd lle bydd y tybiaethau a'r amcangyfrifon yn dylanwadu'n arwyddocaol ar y datganiadau ariannol. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys: symiau masnach a symiau derbyniadwy erail (nodyn 11) a darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau ac arwystlon (nodyn 15).

***Busnes byw***

Un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw'r Asiantaeth ac fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012 i gomisiynu, caffael a thalu am wasanaethau cymorth cyfreithiol gan ddarparwyr (cyfreithwyr, bargyfreithwyr, cyfryngwyr a'r sector heb fryd ar wneud elw). Disgwylir i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ariannu gweithgareddau'r Asiantaeth yn y dyfodol drwy gronfeydd y pleidleisir yn eu cylch bob blwyddyn o dan y Ddeddf Neilltuo berthnasol. Barn yr Asiantaeth yw bod y cysyniad busnes byw'n berthnasol cyn belled ag y bydd darpariaethau Deddf LASPO 2012 yn parhau.

**b) Newid polisïau cyfrifyddu a datgeliadau**

***Newid polisïau cyfrifyddu***

Nid yw polisïau cyfrifyddu wedi newid ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016.

***Mabwysiadu safonau newydd a safonau diwygiedig***

Nid oes dim safonau newydd neu ddiwygiedig ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015 sy'n cael effaith o sylwedd ar Gyfrifon yr Asiantaeth.

***Safonau newydd, diwygiadau a dehongliadau a gyhoeddwyd ond nad ydynt ar waith ar gyfer y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2015 ac sydd heb eu mabwysiadu'n gynnar***

Nid yw 'Offerynnau Ariannol' Safonau Rhyngwladol 9 ar waith ar gyfer adroddiadau'r sector cyhoeddus eto ac ni ddisgwylir i hyn gael effaith sylweddol ar gyfrifon yr Asiantaeth yn y dyfodol.

***Newidiadau i'r cyflwyniad ac ailgategoreiddio***

Yn ogystal â nodyn 3, datgelir manylion costau staff a nifer y bobl a gyflogir ar gyfartaledd yn yr adroddiad am Daliadau a staff.

**c) Incwm**

Mae incwm yr Asiantaeth yn cynnwys cyfraniadau gan gleientiaid a ariennir, costau y gellir eu hadennill gan gleientiaid a ariennir neu eraill, gan gynnwys taliadau statudol, adennill iawndaliadau ac incwm gweinyddu. Cydnabyddir yr incwm ar y pwynt lle mae'n debygol y byddai'r buddion economaidd sy'n gysylltiedig ag ariannu achos yn llifo i'r Asiantaeth.

***Costau y gellir eu hadennill***

Lle bydd y dyfarniad i'r cleient a ariennir yn cael ei setlo cyn gwrandawiad llys, bydd yr incwm yn cael ei gydnabod pan fydd yn ddyledus i'r Asiantaeth, a bydd y symiau y setlir arnynt yn cael eu trosglwyddo mewn gwirionedd yn uniongyrchol rhwng y ddau barti'n unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

***Symiau a adenillwyd yn sgil iawndaliadau a'r arwystl statudol***

Os oes modd adennill y costau wrth ariannu achos gan gleientiaid a ariennir neu eraill, bydd y symiau'n cael eu cyfrif yn incwm ar yr adeg yr asesir eu bod yn ddyledus i'r Asiantaeth. Gellir adennill y symiau o gostau ac iawndaliadau a ddyfernir, lle bo'r rheini'n berthnasol.

***Prawf Modd Llys y Goron***

Ar gyfer cynllun Prawf Modd Llys y Goron, cydnabyddir yr incwm pan fydd y dyfarniad yn hysbys a chyfrifiad terfynol cyfanswm cyfraniad y ceisydd wedi'i asesu.

**d) Gwariant**

Mae gwariant yn cynnwys y symiau sy'n daladwy, gan gynnwys amcangyfrif o werth y gwaith a gwblheir gan ddarparwyr gwasanaeth cymorth cyfreithiol sydd heb gael eu bilio eto, am wasanaethau a ddarperir i gleientiaid a ariennir, ad-dalu cyfraniadau i gleientiaid a ariennir, costau a ddyfernir i bartïon eraill a chostau eraill sy'n gysylltiedig â darparu cyngor a chymorth cyfreithiol. Mae costau eraill yn cynnwys costau staff (gan gynnwys dyraniad ar gyfer costau pensiwn) a chostau gweinyddu cynnal yr Asiantaeth.

**e) Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod**

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys balansau banc a ddelir gyda banciau masnachol gan gynnwys y rheini sy'n cael eu gweinyddu drwy gyfrwng Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, ac sydd â chyfnod aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai..

**f) Darpariaethau**

Mae darpariaethau'n cynrychioli rhwymedigaethau ansicr eu hamseriad neu eu swm. Cydnabyddir darpariaethau pan fydd gan yr Asiantaeth rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol yn y presennol, yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol, ac y mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth ac y mae'n bosibl amcangyfrif yn rhesymol beth fydd swm y rhwymedigaeth honno. Mae'r darpariaethau'n adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gwariant y bydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Os bydd yr effaith yn sylweddol, rhoddir disgownt ar waith ar gyfer yr

amcangyfrif o'r llif arian. Bydd effaith y disgownt yn cael ei phriodoli'n uniongyrchol i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr.

***Symiau sy'n weddill mewn achosion a ariennir***
Mae'r Asiantaeth yn cydnabod ei bod yn atebol am dalu am waith a gwblhawyd cyn 31 Mawrth 2016 ond sydd heb ei filio eto. Mae modelau ar wahân ar gyfer pob cynllun cymorth cyfreithiol, gan gynnwys Cynrychiolaeth Sifil, Help Cyfreithiol Sifil, Troseddau Uwch a Throseddau Is. Mae'r modelau hyn yn dibynnu ar natur y wybodaeth sydd ar gael ar gyfer pob cynllun. Wedyn, seilir y ddarpariaeth ar gyfer symiau sy'n ddyledus ar achosion a ariennir ar ffactorau megis nifer yr achosion sy'n sefyll, yr amser sydd wedi mynd heibio ar bob achos ac amcangyfrif o gyfartaledd y costau sydd wedi'i seilio ar ddata achosion sydd wedi cau. Seilir y ddarpariaeth ar dybiaeth sy'n deillio o'r modelau ac fe gyfeirir at sensitifrwydd y tybiaethau yn nodyn 10 y datganiadau ariannol hyn.

***Darpariaeth ar gyfer symiau sy'n ddyledus yng nghyswllt achosion sy'n cael eu hariannu'n breifat (Cronfeydd Canolog)***
O dan delerau Deddf Erlyn Troseddau 1985, caiff diffynyddion sydd wedi'u rhyddhau ac sydd wedi gwneud cais am gymorth cyfreithiol ond y penderfynwyd eu bod yn anghymwys ar ei gyfer, o dan amgylchiadau prin, gael gorchymyn gan Lys y Goron i adennill eu costau. Mae'r Asiantaeth yn amcangyfrif gwerth costau heb eu bilio er mwyn cyrraedd y swm sy'n cael ei ddatgelu'n ddarpariaeth yn y Cyfrifon. Amcangyfrif yw'r swm hwn o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo unrhyw rwymedigaeth ar ddyddiad diwedd y cyfnod. Wrth amcangyfrif y ddarpariaeth, mae'r Asiantaeth wedi mabwysiadu technegau mesur darbodus ar sail y data diweddaraf sydd ar gael.

***Dadfeilio***
Gwneir darpariaeth ar gyfer amcangyfrif o'r costau dadfeilio ar adeiladau dan brydles. Amcangyfrifwyd y ddarpariaeth drwy gyfeirio at gyflwr a lleoliad yr adeiladau a gofynion y brydles berthnasol. Wedyn defnyddiwyd disgownt ar gyfradd Trysorlys EM, sef -1.6% (2015: - 1.5%) ar gyfer prydles tymor byr (hyd at 5 mlynedd), - 1.0% (2015:- 1.1%) ar gyfer prydles tymor canol (5 i 10 mlynedd) a - 0.8% (2015: 2.2%) ar gyfer prydles tymor hir (dros 10 mlynedd).

***Costau cyfreithiol***
Gwneir darpariaethau ar gyfer costau pan fydd yn debygol y bydd gofyn cael all-lif o adnoddau i setlo rhwymedigaeth gyfredol.

***Hawliadau contractaidd***
Gwneir darpariaethau ar gyfer hawliadau contractaidd os derbynnir hawliadau ffurfiol gan gyflenwr. Dilynir proses ddilysu i asesu dilysrwydd hawliad a'i werth cyn cydnabod y ddarpariaeth.

**g) Asedau ar brydles**
Mae prydlesi'n cael eu categoreiddio'n brydlesi cyllid pan fydd telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol holl risgiau a manteision y berchnogaeth i'r Asiantaeth. Bydd pob prydles arall yn cael ei chategoreiddio'n brydles weithredol. Bydd taliadau rhent ar brydlesi gweithredol yn cael eu priodoli i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

***Prydlesi Gweithredol***
Priodolir taliadau rhent i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr wrth iddynt ddod yn ddyledus. Bydd yr Asiantaeth yn rhoi cyfrif am gymhellion ar brydlesi (cyfnodau di-rent) dros gyfnod y les.

**h) Offerynnau ariannol**
***Asedau ariannol***
Mae asedau ariannol yr Asiantaeth yn cynnwys arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod, symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill.

*Nodau ar y Datganiadau Ariannol - parhad*

Asedau ariannol anneilliannol yw symiau derbyniadwy'r Asiantaeth sy'n cynnwys taliadau penodedig neu rai y mae modd eu pennu nad ydynt yn cael eu dyfynnu ar unrhyw farchnad. Nid yw'n fwriad gan yr Asiantaeth i fasnachu'r symiau derbyniadwy hyn, sy'n cynnwys symiau sy'n ddyledus gan gyflenwyr cymorth cyfreithiol a chleientiaid a ariennir.

***Cydnabyddiaeth gychwynnol a mesur***

Bydd symiau derbyniadwy'n cael eu cydnabod i ddechrau ar eu swm crynswth wedi'i addasu i ystyried gwerth amser yr arian dros y cyfnod y disgwylir iddynt gael eu casglu, ar sail cyfradd ddisgownt Trysorlys EM, sef 3.7% tybiannol, 0.7% real (2015: 2.2%). Disgrifir hyn fel addasiad gwerth teg.

Ar ôl y gydnabyddiaeth gychwynnol, bydd yr asedau hyn yn cael eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, llai unrhyw leihad yn y gwerth ac unrhyw addasiad gwerth teg pellach. Bydd unrhyw log sy'n dderbyniadwy neu unrhyw golled sy'n codi yn sgil lleihad yn y gwerth yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr. Bydd pob swm derbyniadwy'n cael ei ddatgelu fel petai'n ddyledus o fewn blwyddyn, er, yn achos dyledion taliadau statudol, lle y ceir gohirio ad-dalu'r ddyled nes bydd yr ased cysylltiedig wedi'i waredu, gellir ad-dalu dyledion ar ôl mwy na blwyddyn.

***Dadgydnabod***

Bydd benthyciadau a symiau derbyniadwy'n cael eu dadgydnabod pan fydd yr hawliau i gael llif arian o'r asedau wedi dod i ben.

**Rhwymedigaethau ariannol**

***Cydnabyddiaeth gychwynnol a mesur***

Mae rhwymedigaethau ariannol yr Asiantaeth yn cynnwys symiau masnach a symiau taladwy eraill. Ni fydd y rhain yn cael eu hailbrisio ar ôl eu cydnabod yn y lle cyntaf oherwydd mai offerynnau syml ydynt ag aeddfedrwydd tymor byr. Nid oes gan yr Asiantaeth y grym i fenthyca arian.

***Dadgydnabod***

Dadgydnabyddir rhwymedigaeth ariannol pan fydd y ddyletswydd o dan y rhwymedigaeth yn cael ei dileu, ei chanslo neu'n dod i ben.

***Gwerth teg offerynnau ariannol***

Pennir gwerth teg offerynnau ariannol yr Asiantaeth drwy ddefnyddio technegau prisio priodol. Gall technegau o'r fath gynnwys modelau dadansoddi llif arian drwy ddisgowntio neu fodelau prisio eraill.

Dadansoddir gwerthoedd teg offerynnau ariannol a rhoddir rhagor o fanylion am sut y caiff y rhain eu mesur yn nodyn 14 y datganiadau ariannol hyn.

***Gwrthbwyso offerynnau ariannol***

Bydd asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu gwrthbwyso yn erbyn ei gilydd ac adroddir am y swm net yn y Datganiad ynghylch y Sefyllfa Ariannol dim ond os oes ar y pryd hawl gyfreithiol orfodadwy i wrthbwyso'r symiau a gydnabyddir a bod bwriad o setlo ar sail net, neu o wireddu'r asedau a setlo'r rhwymedigaethau ar yr un pryd.

**i) Lleihad yng ngwerth asedau anariannol**

Asesir a oes tystiolaeth wrthrychol o leihad yng ngwerth pob ased ariannol neu grŵp o asedau ariannol ar ddyddiad y Datganiad ynghylch y Sefyllfa Ariannol. Gall yr asesiad hwn fod ar asedau unigol ('lleihad unigol') neu ar bortffolio o asedau ('lleihad ar y cyd').

Bydd lleihad ar y cyd yn cael ei asesu pan fydd gan asedau ariannol nodweddion risg tebyg. Ar gyfer yr asedau hyn, bydd profiad blaenorol yr Asedau o golledion ym mhob portffolio'n cael ei ddefnyddio i amcangyfrif faint o leihad sydd yng ngwerth y

dosbarth hwnnw o asedau. Pan wneir amcangyfrif o'r fath, bydd y darpariaethau ar gyfer y lleihad yn cael eu gwneud er mwyn lleihau gwerth cario'r asedau ariannol yn unol â hynny. Mae rhagor o fanylion am y model prisio a ddefnyddiwyd i greu'r amcangyfrif hwn a'r lleihad gwirioneddol yn erbyn symiau derbyniadwy'r Asiantaeth yn nodyn 11 y datganiadau ariannol hyn.

Ar gyfer lleihad unigol, y prif ddigwyddiad o ran colled yw methu un taliad nau ragor, er y gellir ystyried digwyddiadau eraill hefyd, gan gynnwys y trefniadau sydd ar waith i dalu llai na'r taliadau dan y contract, twyll a methdaliad neu ddangosyddion eraill sy'n awgrymu anhawster ariannol.

Os oes tystiolaeth wrthrychol fod colled wedi bod sy'n arwain at leihad yng ngwerth benthyciadau a symiau derbyniadwy, gwneir darpariaethau i leihau gwerth cario asedau ariannol hyd at werth teg y llifau arian a amcangyfrifir yn y dyfodol wedi'u disgowntio'n unol â chyfradd llog Trysorlys EM, sef ar hyn o bryd 3.7% tybiannol, 0.7% gwirioneddol (2015: 2.2%).

**j) Cyfrif ar gyfer Treth ar Werth (TAW)**

Bydd TAW nad oes modd ei hadennill yn cael ei phriodoli i'r categori gwariant perthnasol neu, os yw hynny'n briodol, bydd yn cael ei gyfalafu gydag ychwanegiadau at asedau anghyfredol. Ar wahân i hynny, dangosir incwm a gwariant net o TAW.

**k) Asedau trydydd parti**

***Cyfrifon adnau i gleientiaid a ariennir***

Bydd dyfarniadau ar gyfer iawndaliadau i gleientiaid a ariennir yn daladwy i'r Asiantaeth yn y lle cyntaf. Bydd yr Asiantaeth yn rhoi'r cronfeydd hyn ar adnau nes bod costau terfynol achos wedi'u cyfrifo, a phan gaiff unrhyw gyfraniadau ac iawndaliadau sydd dros ben eu talu i'r cleient a ariennir. Cyfrifir y cronfeydd hyn fel asedau a gedwir ar ran trydydd parti ac felly, nid ydynt yn cael eu cydnabod yn y Datganiad ynghylch y Sefyllfa Ariannol.

Bydd dyfarniadau ar gyfer iawndaliadau a delir i'r Asiantaeth yn denu llog ar ôl cyfnod cymhwyso.

***Prawf Modd Llys y Goron***

Gall cyfraniadau fod yn daladwy i'r Asiantaeth tuag at gost achosion Llys y Goron yn yr achosion hynny lle y cynhaliwyd prawf modd. Bydd yr Asiantaeth yn rhoi'r cronfeydd hyn ar adnau ac yn cyfrif amdanynt fel cronfeydd a ddelir ar ran trydydd partïon. Felly, ni fyddant yn cael eu cydnabod yn y Datganiad ynghylch y Sefyllfa Ariannol. Ar ôl cael y dyfarniad terfynol a phennu'r costau, os ceir y ceisydd yn euog, bydd gwerth y cronfeydd hyd at derfyn y costau'n ddyledus i'r Asiantaeth. Os ceir y ceisydd yn ddieuog, bydd cyfraniadau a dalwyd i'r Asiantaeth yn cael eu had-dalu, gan gynnwys llog a gyfrifir ar gyfradd o 2.0% y flwyddyn o ddyddiad y taliad.

Adroddir am symudiadau yn y cronfeydd trydydd parti yn nodyn 21 y datganiadau ariannol hyn.

**l) Buddion i weithwyr**

Yn ôl Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19 'mae 'Budd i Weithwyr' yn ei gwneud yn ofynnol i'r Asiantaeth gydnabod cost ddisgwyliedig hawl ei gweithwyr i wyliau blynyddol sy'n cronni ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Bydd yr Asiantaeth yn amcangyfrif y croniadau hyn drwy gyfrifo gwerth cyfartalog gwyliau sydd heb eu cymryd ym mhob band cyflog a bydd wedyn yn defnyddio hyn i ddarparu cyfanswm wedi'i allosod.

**m) Cronfa gyffredinol wrth gefn**

***Arian cyflenwi***

Mae'r arian cyflenwi a geir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cael ei gredydu i'r gronfa gyffredinol wrth gefn yn y Datganiad ynghylch Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr pan dderbynnir cronfeydd. Bydd yr Asiantaeth yn cael arian

***Nodau ar y Datganiadau Ariannol - parhad***

cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn ac fe gyfrifir amdano ar sail arian parod.

***Addasiad o fewn adrannau***

Bydd addasiadau o fewn adrannau'n berthnasol i'r setliad rhwng yr Asiantaeth a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn sgil i) trosglwyddo eiddo, offer a chyfarpar a ii) trafodion prynu a gwerthu rhwng cwmnïau drwy gyfrwng y gronfa gyffredinol wrth gefn.

**n) Rhwymedigaethau ac asedau amodol**

Datgelir rhwymedigaethau amodol pan fydd tebygolrwydd taliad yn llai na thebygol, ond nid yn gwbl annhebygol. Yn ogystal â'r rhwymedigaethau amodol a ddatgelir yn unol â Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol', Safon Ryngwladol 37, bydd yr Asiantaeth yn datgelu, at ddibenion adroddiadau Seneddol ac atebolrwydd, rwymedigaethau statudol ac anstatudol amodol penodol, lle nad yw'n debygol iawn y trosglwyddiry budd economaidd, yn unol ag sy'n ofynnol o dan Reoli Arian Cyhoeddus.

Ased amodol yw ased posibl sy'n codi yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol ac y caiff ei fodolaeth ei gadarnhau dim ond os bydd un neu fwy nag un digwyddiad ansicr yn digwydd yn y dyfodol a hynny heb fod yn llwyr o fewn rheolaeth yr Asiantaeth.

Datgelir ased amodol pan fydd mewnlif o fuddion economaidd yn debygol.

**o) Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd**

Yn unol â gofynion IAS 10 'Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd', ystyrir digwyddiadau hyd at y dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Yn ôl y dehongliad, dyddiad y Dystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol fydd hynny

**p) Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu**

Bydd asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu'n cael eu prisio ar sail eu cost hanesyddol o fewn asedau eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol, ac ni fydd y rhain yn cael eu dibrisio na'u hamorteiddio. Ni fydd ased yn cael ei gategoreiddio'n ased sydd wrthi'n cael ei adeiladu ragor pan fydd yn barod i'w ddefnyddio. Wedyn, bydd ei werth cario'n cael ei ddileu o'r asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu ac yn cael ei drosglwyddo i'r categori perthnasol o asedau. Wedyn, bydd y dibrisio neu'r amorteiddio'n cael ei briodoli i'r ased yn unol â'r polisi cyfrifyddu a ddatganwyd.

Bydd gwariant yn cael ei gyfalafu lle bydd modd ei briodoli'n uniongyrchol i ddod ag ased i gyflwr gweithio, megis costau contractwyr allanol a chostau gweithwyr perthnasol.

**q) Asedau anniriaethol**

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd cyfrifiadurol sy'n cael ei ddatblygu'n fewnol (gan gynnwys asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu) a thrwyddedau meddalwedd a brynir.

Bydd costau datblygu y mae modd eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi cynnyrch meddalwedd y mae modd ei adnabod a chynnyrch unigryw, megis costau contractwyr allanol a chostau gweithwyr perthnasol, yn cael eu cydnabod yn asedau anniriaethol pan fyddant yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer eu cydnabod.

Bydd yr Asiantaeth yn rhoi trothwy cyfalafu ar waith ar gyfer asedau anniriaethol sef £10,000 (2015: £10,000).

Bydd asedau anniriaethol, ac eithrio asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu, yn cael eu hailddatgan ar sail gwerth teg yn y ffordd y'u defnyddir ar y pryd drwy fynegeio hyd at ddiwedd y flwyddyn gan ddefnyddio Mynegrifau Prisiau Cynhyrchwyr

(PPI) ar gyfer Cyfrifyddu Cost Gyfredol, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**r) Eiddo, offer a chyfarpar**

Bydd asedau eiddo, offer a chyfarpar sy'n costio mwy na'r trothwy cyfalafu sef: £10,000 (2015: £10,000) yn cael eu trin yn asedau cyfalaf. Os bydd eitem yn costio llai na'r trothwy cyfalafu ond yn rhan o ased neu ased mewn grŵp, a bod cyfanswm ei gwerth yn fwy na'r lefel cyfalafu, bydd yr eitem honno'n cael ei thrin yn ased cyfalaf.

Bydd eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu hailddatgan ar sail gwerth teg bob blwyddyn drwy fynegeio hyd at ddiwedd y flwyddyn, gan ddefnyddio PPI ar gyfer Cyfrifyddu Cost Gyfredol, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**s) Depreciation and amortisation**

Ac eithrio ar gyfer asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu, bydd pob ased anghyfredol yn cael ei ddibrisio neu'n cael ei amorteiddio ar sail llinell syth er mwyn dileu cost asedau dros eu hoes ddefnyddiol yn unol â'r amcangyfrifon a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gosodion a ffitiadau | 5 mlynedd |
| Dodrefn a chyfarpar | 3 i 5 mlynedd |
| Technoleg gwybodaeth | 3 i 5 mlynedd |
| Meddalwedd cyfrifiadurol | 3 i 15 mlynedd |

**t) Lleihad yng ngwerth asedau anariannol**

Ar bob dyddiad adrodd, bydd yr Asiantaeth yn adolygu symiau cario'i heiddo, ei hoffer a'i chyfarpar a'i hasedau anniriaethol er mwyn pennu a oes unrhyw awgrym bod lleihad yng ngwerth yr asedau hynny. Os oes awgrym o'r fath, amcangyfrifir gwerth teg yr ased er mwyn penderfynu beth yw maint y golled honno oherwydd lleihad.

Bydd lleihad sy'n adlewyrchu crebachu parhaol ar werth ased, yn sgil y ffaith bod budd economaidd neu botensial economaidd yn amlwg yn llai, yn cael ei briodoli'n uniongyrchol i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, a bydd unrhyw falans ailbrisio wrth gefn sy'n weddill yn cael ei ryddhau i'r gronfa gyffredinol wrth gefn.

Pan fydd swm cario ased yn gostwng (ac eithrio o ganlyniad i grebachu parhaol), bydd y gostyngiad yn cael ei gydnabod yn y gronfa wrth gefn i'r graddau bod balans ar gael yng nghyswllt yr ased. Bydd gostyngiadau sy'n fwy na'r gweddill ailbrisio'n cael eu priodoli i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr.

Bydd unrhyw wrthdroi ar leihad yn y gwerth yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr i'r graddau bod y taliad gwreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer dadbrisio wedi hynny, wedi'i gydnabod yma o'r blaen. Bydd y swm sy'n weddill yn cael ei gydnabod yn gronfa ailbrisio wrth gefn.

**u) Ailbrisio**

Pan fydd swm cario ased yn cynyddu yn sgil ailbrisio, bydd y cynnydd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr i'r graddau ei fod yn gwrthdroi gostyngiad ailbrisio ar yr un ased a gydnabuwyd yma o'r blaen. Bydd unrhyw gynnydd sy'n weddill yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r gronfa ailbrisio wrth gefn yn y Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr. Bydd unrhyw ddadbrisiad sydd wedi cronni ar ddyddiad yr ailbrisio'n cael ei ddileu yn erbyn swm cario crynswth yr ased. Bydd y swm net yn cael ei ailddatgan ar gyfer swm yr ased wedi'i ailbrisio.

Bydd yr elfen sydd wedi'i hailbrisio, sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng dadbrisiad sydd wedi'i seilio ar swm cario wedi'i ailbrisio'r ased a briodolir i'r Datganiad Gwariant Net cynhwysfawr a dadbrisiad sydd wedi'i seilio ar gost wreiddiol yr ased, yn cael ei throsglwyddo o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r gronfa gyffredinol wrth gefn bob blwyddyn.

*Nodau ar y Datganiadau Ariannol - parhad*

### v) Ad-daliadau tybiannol

***Ad-daliadau tybiannol gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder***

Bydd yr ad-daliad tybiannol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cynrychioli defnydd yr Asiantaeth ar wasanaethau corfforaethol.

***Ffi archwilio dybiannol***

Cydnabuwyd costau'r archwiliad a gyflawnwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol yn daliad anariannol yn 2015-16.

### w) Llog derbyniadwy ar arwystl statudol

O dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol 1974, Deddf Cymorth Cyfreithiol 1988, Deddf Mynediad i Gyfiawnder 1999, a Deddf LASPO 2012, lle bydd cleientiaid sy'n cael eu harinnu wedi adennill neu gadw eu heiddo yn hytrach na chael iawndal, mae'n bosibl sicrhau costau adenilladwy  drwy godi arwystl ar yr eiddo. O dan Reoliadau'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) 2000 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) (Diwygio) 2005 a Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Arwystl Statudol) 2013, mae rhai o'r dyledion hyn yn ddyledion sy'n dwyn llog ac sydd â llog yn ddyledus ar y balans sy'n weddill ar gyfradd o 8.0% y flwyddyn.

### x) Pensiynau

***Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil***

Cynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu yw'r Prif Gynllun Pensiwn, ond, yn unol â FReM, bydd yr Asiantaeth yn rhoi cyfrif am y rhain fel petaent yn rhan o gynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae'r Asiantaeth yn cydnabod cyfraniadau sy'n daladwy i gynlluniau cyfraniadau diffiniedig fel cost yn y flwyddyn y mae'n digwydd ac mae'r ddyletswydd gyfreithiol neu amodol yn gyfyngedig i'r swm y mae'n cytuno'i gyfrannu at y gronfa.

### y) Adroddiadau am segmentau

Byddwn yn pennu segmentau gweithredu addas yn unol â 'Segmentau Gweithredu' IFRS 8 ar sail y wybodaeth a gyflwynir at ddibenion penderfynu i Fwrdd yr Asiantaeth.

## Nodyn 2 - Dadansoddi'r segmentau

Bydd yr Asiantaeth yn rhannu incwm a gwariant yn dri segment gweithredu i adrodd amdanynt: Y Gronfa Cymorth Cyfreithiol, Gweinyddu a'r Cronfeydd Canolog at ddiben gwneud penderfyniadau gweithredol ac adrodd i Fwrdd yr Asiantaeth. Mae costau gweithredu net Gweinyddu'n adlewyrchu costau gweinyddu cynnal yr Asiantaeth. Mae'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol yn cael ei rannu eto'n Help Cyfreithiol, Cynrychiolaeth Sifil, Troseddau Is, a Throseddau Uwch. Mae costau gweithredu net y Cronfeydd Canolog yn adlewyrchu'r gwariant ar orchmynion i ddiffynyddion a ryddhawyd ac sydd wedi talu am eu cynrychiolaeth gyfreithiol yn breifat.

Mesurir cost net gweithrediadau'r segment gweithredol ar yr un sail â'r swm cyfatebol yr adroddir yn ei gylch yn y datganiadau ariannol.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno costau gweithredu net gweithrediadau'r segmentau yr adroddir yn eu cylch ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016:

| | 2015-16 | Ailddatgan 2014-15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Cronfa** | | |
| Help Cyfreithiol* | 95,143 | 112,165 |
| Cynrychiolaeth Sifil | 518,580 | 480,721 |
| Troseddau Is** | 282,151 | 332,578 |
| Troseddau Uwch | 582,383 | 586,457 |
| **Cronfeydd Canolog** | 48,059 | 44,238 |
| **Gweinyddu** | 112,499 | 109,841 |
| **Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn** | 1,638,815 | 1,666,000 |

* Mae'r gwariant ar Help Cyfreithiol yn cynnwys £319k o gostau staff (2015: £357k).
** Mae'r gwariant ar droseddau is yn cynnwys £5,163k o gostau staff (2015: £4,796k).

## Nodyn 3 – Costau staff

| | 2015-16 | 2015-16 | 2015-16 | 2014-15 | 2014-15 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff parhaol a gyflogwyd | Eraill | Cyfanswm | Staff parhaol a gyflogwyd | Eraill | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau wythnosol a misol | 42,964 | 7,579 | 50,543 | 40,193 | 4,946 | 45,139 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 3,233 | 193 | 3,426 | 3,100 | 230 | 3,330 |
| Costau Pensiwn eraill | 8,030 | 445 | 8,475 | 7,092 | 441 | 7,533 |
| | 54,227 | 8,217 | 62,444 | 50,385 | 5,617 | 56,002 |
| Llai adenillion yn sgil secondiadau allan | (333) | - | (333) | (214) | - | (214) |
